# Diweddariad Perfformiad Cynllun Corfforaethol: Gorffennaf i Medi 2021

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno perfformiad y cyngor yn erbyn ei flaenoriaethau a meysydd llywodraethu rhwng Gorffennaf a Medi 2021, gan gynnwys defnydd o’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Cynnwys


Crynodeb o'r sefyllfa 4

Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion 6

Llesiant a Chydraddoldeb 11

Cysylltu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a drwy gysylltiadau cludiant da 13

Llesiant a Chydraddoldeb 17

Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid 19

Llesiant a Chydraddoldeb 24

Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd 28

Llesiant a Chydraddoldeb 32

Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo a chanddynt y sgiliau i wneud hynny 37

Llesiant a Chydraddoldeb 42

Iechyd Corfforaethol: Mae'r cyngor yn effeithiol, wedi ei reoli'n dda ac yn gynaliadwy yn amgylcheddol 47

Camau Gwella 70

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 71

## Manylion cyswllt a mwy o wybodaeth

Am mwy o wybodaeth, neu i roi gwybod i ni beth yw eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni:

**E-bost**:timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk

**Dros y FFÔN**: 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

**Drwy'r POST**:

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Cyngor Sir Ddinbych

Blwch Post 62,

Rhuthun,

LL15 9AZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.

### I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Dilynwch ni ar Twitter

Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i Borth Llais y Sir a chofrestrwch ar gyfer *Y Panel!*

Tanysgrifiwch i Newyddlen Llais y Sir

## Crynodeb o’r sefyllfa

Arfarnwyd y llinyn mesur ar gyfer pob blaenoriaeth yn unol â’r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi’i sefydlu. Arfarnwyd y prosiectau ar sail statws ein prosiectau.

**Tai:** Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy’n diwallu eu hanghenion

Llinynau mesur: Da

Prosiectau: Da

**Cysylltu Cymunedau:** Mae Cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a drwy gysylltiadau cludiant da.

Llinynau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

**Cymunedau Cryf**: Mae’r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid

Llinynau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Da

**Yr Amgylchedd:** Deniadol ac wedi’i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

Llinynau mesur: Da

Prosiectau: Rhagorol

**Pobl Ifanc**: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo a chanddynt y sgiliau i wneud hynny.

Llinynau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

**Iechyd Corfforaethol:** Mae’r cyngor yn effeithiol, wedi ei reoli’n dda ac yn gynaliadwy yn amgylcheddol

Llinynau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Da

## Nodyn ynglŷn â Mesur Perfformiad

Yn Sir Ddinbych, ein dull diofyn ar gyfer gosod trothwyon perfformiad yw cymryd y chwartel uchaf (perfformio orau) o wybodaeth gymharol genedlaethol fel pwynt ble mae perfformiad yn cael ei ystyried yn 'Ardderchog'. Y canolrif yw'r trothwy 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' fel arfer. Y man yn y canol rhwng y gwerthoedd hynny yw'r trothwy rhwng perfformiad 'Derbyniol' a 'Da'.

Os nad oes data ar gael i ni allu cymharu ein hunain ag eraill (naill ai'n genedlaethol neu â grwpiau cymharol) yna byddwn yn cymryd safbwynt lleol ar yr hyn yr ystyriwn sy'n berfformiad 'Ardderchog', ac yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Dylai hyn adlewyrchu ein huchelgeisiau.

I gael gwybod mwy am sut rydym yn rheoli perfformiad, ewch i weld y Canllaw i Reoli Perfformiad ar ein gwefan.

## Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy’n diwallu eu hanghenion

Llinynau mesur: Da

Prosiectau: Da

### Fframwaith Perfformiad Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â’r Llinynnau Mesur

Dau fesur yn unig gyda data newydd i’w gyflwyno sydd yn yr adroddiad hwn. Hyd at ddiwedd Medi 2021, roedd yna 2,283 o bobl ar y rhestr aros Un Llwybr Mynediad at Dai (ULlMaD), i lawr ychydig o 2,297 (Ebrill - Mehefin) Rhagwelir y bydd yr adroddiad terfynol yn dilyn adolygiad o ULIMaD ar ddiwedd eleni, fydd yn rhoi eglurhad pellach ynglŷn â pham y bu cynnydd o’i gymharu  a’r lefelau cyn y pandemig.

Mae ein hail fesur ULIMaD yn ystyried y nifer o bobl a gartrefir o’r gofrestr naill ai mewn stoc cyngor neu eiddo Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Sir Ddinbych.  Hyd at ddiwedd Medi roedd yna 153 wedi eu cartrefu, sy’n gynnydd o 83 ar gyfer y cyfnod blaenorol.

Mae Tai Cymunedol Sir Ddinbych yn cynnal arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr (STAR) o holl denantiaid tai cyngor dwywaith y flwyddyn. O’r 3,277 arolwg a anfonwyd at denantiaid tai cyngor ym mis Hydref 2020, derbyniwyd ymatebion gan 381 o aelwydydd sy’n gyfradd ymateb 11%. Er ein bod yn disgwyl y byddai’n fwy anodd i denantiaid ymateb fel arfer yn ystod y pandemig Covid-19, roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig cynnal yr arolwg pan oedd i fod i gael ei gynnal er mwyn helpu i lywio’r cynlluniau ar gyfer adferiad ar ôl y pandemig.  Mae wedi cael ei nodi gan Lywodraeth Cymru wrth gymharu data landlordiaid, bod y pandemig wedi effeithio ar y data a gyflenwyd gan Sir Ddinbych pan oedd llawer o landlordiaid cymdeithasol eraill wedi cyflwyno data cyn-Covid-19. Mewn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i holl gynghorau a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) ailadrodd yr arolwg STAR eto ar gyfer Ebrill 2022. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ailadrodd yr arolwg yn ddiweddarach eleni.   I weld yr adroddiad llawn a dadansoddi’r ymatebion, gallwch gyfeirio at adroddiad Arolwg Tenantiaid tai cyngor, aeth i’r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Gorffennaf.

## Fframwaith Perfformiad Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

### Yn profi rhwystrau: Tai Gofal Ychwanegol Dinbych

Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol wedi cyfarfod gyda Grŵp Cynefin yn ddiweddar i drafod yr anawsterau a'r oedi a brofwyd gyda'r prosiect mewn misoedd diweddar. Cadarnhawyd bellach y bydd dyddiad dechrau'r contract gofal wedi'i ohirio tan fis Ionawr 2022. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd Bloc C o'r cyfleuster Gofal Ychwanegol yn barod yn gynt, a disgwylir i'r contract gofal ddechrau ym mis Rhagfyr.

### Yn profi rhwystrau: Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun

Disgwylir diweddariad gan Grŵp Cynefin ar benodiad contractwr ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun. Yn ystod y cyfarfod diweddar gyda Grŵp Cynefin, rhoddwyd sicrwydd y byddem yn dechrau gweld materion yn derbyn sylw a chynnydd yn cael ei wneud.

### Yn profi rhwystrau: Tai Cyngor Ychwanegol

Mae hyder darparu ar gyfer darparu datblygiadau tai cyngor ychwanegol wedi gwella wrth i gynnydd gael ei wneud ar amrywiol safleoedd, fel:

- Cafodd penseiri eu penodi i ddatblygu dyluniad ar gyfer trosi hen Dai Amlfeddiannaeth yn Stryd y Baddon, Y Rhyl i fflatiau ar gyfer rhent canolradd.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer newid y cynnig i adeiladu fflatiau ar dir oddi ar The Dell ym Mhrestatyn. Cafodd tendrau a dderbyniwyd ar gyfer gwneud y gwaith eu sgorio a chafodd y contract ei ddyfarnu i RL Davies and Sons Limited.
- Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo argymhelliad i wahodd tendrau gan gontractwyr am waith i ailddatblygu hen safle'r llyfrgell ym Mhrestatyn.
- Cwblhawyd pryniant hen dŷ cyngor yn Y Rhyl a derbyniwyd cynigion ar gyfer prynu tri hen dŷ cyngor yn Y Rhyl, un ym Mhrestatyn ac un yn Rhuddlan.

Bydd y targed i ddarparu 170 tŷ cyngor ychwanegol yn cael ei gyflawni, ond bydd yna oedi. Erbyn diwedd Mawrth 2022, rhagwelir y bydd 80 tŷ Cyngor ychwanegol yn cael eu darparu; 73 arall yn cael eu hadeiladu; a 17 yn mynd drwy'r broses cynllunio neu gaffael.

## Yn cadw at y targed: Tai Fforddiadwy

Mae darpariaeth o 260 cartref fforddiadwy ychwanegol wedi ei gyflawni ac wedi cynyddu gan bod 364 o gartrefi fforddiadwy wedi dod ymlaen ers 2017.

Mae cyflenwi tai fforddiadwy yn parhau gyda'r cynllun ym Mhlas Deva (Ffordd Talargoch) Gallt Melyd, gyda cheisiadau wedi agor ar gyfer eiddo ar rent canolradd fydd yn barod ym mis Hydref 2021. Mae'r datblygiad ar Ffordd Fictoria yn Y Rhyl ar y gweill, gyda gwaith ar yr ail lawr wedi dechrau a'r 18 fflat i'w cwblhau ar gyfer Chwefror i Mawrth 2022.

Mae cais Llys Awelon, Rhuthun fydd yn darparu 35 uned ychwanegol, wedi'i gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth dechnegol gan Lywodraeth Cymru ac wedi'i gynnwys yn rhaglen Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2021 i 2022 a 2022 i 2023. Rhagwelir y bydd y datblygiad angen £5.5miliwn o gyllid grant, ond gall hyn newid yn dibynnu ar y cynigion tendr a dderbyniwyd gan Grŵp Cynefin.

Yn ogystal â hyn, un eiddo ar gyfer Tai Arbenigol, un annedd o dan y cynllun Tai Gwag, a dau 'Cymorth Prynu' ac yn mynd drwy broses cymeradwyaeth Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar hyn o bryd cyn y gall trawsgludo barhau. Mae canfod eiddo pellach yn parhau i brofi'n anodd oherwydd marchnad eiddo hynod fywiog ar hyn o bryd, gan wthio'r prisiau i fyny ac argaeledd yn brin. Mae'r 'ras am le' o ganlyniad i'r pandemig a adroddwyd yn eang, gydag ardaloedd gwledig ac arfordirol wedi eu heffeithio yn benodol.

## Yn cadw at y targed: Rhoi Cartrefi Gwag at Ddefnydd o'r Newydd

Mae'r prosiect Tai Gwag wedi llwyddo i ddod â 490 o dai gwag at ddefnydd o'r newydd hyd yma. Mae hyder darparu yn uchel y byddwn yn cyrraedd y targed o 500 o gartrefi. Mae'r Gwasanaeth Cydweddu Tai Gwag yn parhau i geisio cydweddu a deilliannau ac mae'r cynllun peilot ar fin cael ei adolygu. Mae ein gwaith yn mabwysiadu dull adweithiol ar hyn o bryd oherwydd yr heriau a'r pwysau sy'n codi o Covid-19 a materion adnoddau eraill; fodd bynnag, mae gan y prosiect y gallu i fabwysiadu dull rhagweithiol, sef ein huchelgais ar gyfer y gwaith hwn.

## Llinynnau mesur blynyddol neu ddwyflynyddol

| Llinyn Mesur | 2019 i 2020 | 2020 i 2021 | Statws |
|---|---|---|---|
| Y nifer o bobl oedd ar y Gofrestr Anghenion Tai Arbenigol Anableddau Cymhleth y sicrhawyd tai â chymorth ar eu cyfer - Meincnodi Lleol | 9 | 5 | Derbyniol |
| Y cyflenwad ychwanegol o dai cyngor a ddarparwyd | 10 | 14 | Amherthnasol<br>Cyfrif yn unig |
| Nifer y cartrefi ychwanegol a ddarparwyd yn Sir Ddinbych – wedi'i feincnodi'n lleol | 242 | 435 | Rhagorol |
| Nifer o eiddo gwag sy'n cael ei ddefnyddio unwaith yn rhagor (hen ddiffiniad) - wedi'i feincnodi yn lleol | 179 | 184 | Rhagorol |
| Nifer y cartrefi sector preifat sydd wedi gwella o ran safon ac ansawdd o ganlyniad i ymyrraeth gan y Cyngor – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 810 | 415 | Da |
| Y cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol, a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn – wedi'i feincnodi'n lleol | 139 | 154 | Rhagorol |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (dyletswydd Adran 66) – wedi'i feincnodi'n lleol | 57 | 52.3 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran yr aelwydydd digartref y sicrhawyd cartrefi iddynt (dyletswydd Adran 73) – wedi'i feincnodi'n lleol | 30 | 30.7 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

Ni ddisgwylir data 2020 i 2021 ar gyfer y ddau fesur nesaf nes bydd canlyniadau Arolwg Rhanddeiliad wedi eu cwblhau, mae'r arolwg yn fyw ar hyn o bryd tan 24 Hydref.

| Llinyn Mesur | 2018 i 2019 | Statws |
|---|---|---|
| Y canran o drigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon gydag argaeledd tai yn eu hardaloedd hwy – wedi'i feincnodi'n lleol | 42 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Y canran o drigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon ar safon tai yn eu hardaloedd hwy – wedi'i feincnodi'n lleol | 52 | Derbyniol |

Ni adroddir ar ein llinyn mesur ynghylch y Cyngor yn cefnogi mwy o Dai Gofal Ychwanegol hyd oni chwblheir y cynlluniau dan sylw.

## Llinynnau mesur chwarterol neu ddeuflynyddol

| Llinyn Mesur | Chwarter 2 2020 - 2021 | Chwarter 3 2020 - 2021 | Chwarter 4 2020 - 2021 | Chwarter 1 2021 - 2022 | Chwarter 2 2021 - 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl ar restr aros yr Un Llwybr Mynediad at Dai – wedi'i feincnodi'n lleol | 1,791 | 1,937 | 2,139 | 2,297 | 2,283 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Nifer cronnus y bobl a gartrefwyd oddi ar gofrestr yr Un Llwybr Mynediad at Dai | 140 | 237 | 328 | 67 | 153 | Amherthnasol Cyfrif yn unig |

## Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo’r flaenoriaeth hon â’r pum ffordd o weithio ac mae’n ategu Nodau Llesiant Cymru’n uniongyrchol yng nghyswllt ffyniant, cadernid amgylcheddol, iechyd, cydraddoldeb, cymunedau cydlynus, a Chymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang gyda diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu’r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol:

### Grant Caledi i Denantiaid

Mae’r Grant Caledi i Denantiaid, a weinyddir gan Gyngor Sir Ddinbych ar ran Llywodraeth Cymru, yn grant i ddarparu cymorth ariannol i bobl mewn llety rhent preifat sy’n ei chael hi’n anodd talu rhent oherwydd y pandemig Covid-19. Mae cyfanswm o £9.8 miliwn ar gael i gefnogi pobl mewn llety rhent preifat ar draws Cymru.

Mae’r grant hwn yn anelu i gefnogi’r sawl sydd:

- Wedi cronni 8 wythnos neu fwy o ôl-ddyledion rhent rhwng 1 Mawrth 2020 a 30 Mehefin 2021
- Wedi cael trafferth talu rhent neu ôl-ddyledion rhent oherwydd Covid-19
- Yn byw ac yn dal tenantiaeth eiddo yn y sector preifat yng Nghymru
- Ddim wedi bod yn derbyn budd-dal tai na thaliadau cost tai drwy Gredyd Cynhwysol ar adeg cronni eich ôl-ddyledion rhent
- Ddim wedi gallu talu rhent yn llawn yn ystod cyfnod ôl-ddyledion rhent oherwydd Covid-19.

Bydd y grant hwn, a ddarperir ar y cyd ac yn integredig gyda Llywodraeth Cymru yn anelu i helpu’r sawl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol ac atal aelwydydd rhag bod yn ddigartref neu fynd i fwy o ddyledion.

### Polisi Cymorth Adleoli Affganaidd Llywodraeth y DU

Ym mis Medi 2021, cytunodd Cyngor Sir Ddinbych i ymestyn ei rôl ym Mholisi Cymorth Adleoli Affganaidd Llywodraeth y DU i ddarparu cefnogaeth ar gyfer cyfanswm o bump

teulu ffoaduriaid. Ceisir dod o hyd i lety dros dro yn y sector rhentu preifat ar hyn o bryd, a defnyddiwyd eisoes ar gyfer cartrefu un teulu sydd wedi adsefydlu ar hyn o bryd. Gall y nifer o ffoaduriaid gynyddu i 10 teulu, yn dibynnu ar ymrwymiad cyllid cynhwysfawr gan Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU y tu hwnt i'w amserlen blwyddyn bresennol.

Mae'r cynllun hwn yn dangos Cyngor Sir Ddinbych yn **cydweithio** gyda Llywodraeth y DU, gan **integreiddio** ein dulliau i roi tai priodol i'r sawl yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiadau diweddar yn Affganistan. Bydd y teuluoedd hyn dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a bydd y cynllun yn cynnig diogelwch a chefnogaeth hirdymor iddynt ac yn atal caledi pellach. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cefnogi nodweddion gwarchodedig Hil, Crefydd a Chred.

### Cynlluniau ailddatblygu mawr ar gyfer lloches Dinbych

Cafodd y cynllun i ailddatblygu adeilad rhestredig gradd II Dinbych, Ysbyty Gogledd Cymru ei gymeradwyo yn unfrydol gan Gyngor Sir Ddinbych. Gallai'r prosiect roi hwb o £75miliwn i economi'r ardal a chreu 1,200 o swydd. Bwriedir adeiladu cymaint â 300 o dai ar y safle, ynghyd â thafarn, siop a safle newydd ar gyfer Clwb Criced Dinbych.

Mae'r cynllun hwn yn darparu tai o ansawdd hirdymor ar gyfer Dinbych ac yn atal dirywiad pellach i ased lleol o bwysigrwydd hanesyddol. Drwy gydweithio gyda'n contractwyr ac integreiddio gyda dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer tai, bydd y datblygiad sylweddol hwn yn cefnogi'r gymuned leol drwy eu cynnwys drwy gynnig swyddi crefftus a phrentisiaethau yn ogystal â helpu i ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol. Bydd hyn yn cynnig budd penodol i economi Sir Ddinbych a rhoi cyfleoedd i'r sawl sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Cysylltu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a drwy gysylltiadau cludiant da

Llinynau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Prosiectau: Da

### Fframwaith Perfformiad Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Hyd at fis Hydref 2021 roedd cyflymder band eang cyflym iawn (>30mbps) yn Sir Ddinbych yn 92.75%; cynnydd bach o 0.12% ers Gorffennaf.

Hyd at fis Hydref 2021, roedd gan 4.33% o eiddo fandeang 10mbps neu lai. Mae hyn yn 0.01% o ostyngiad ers mis Gorffennaf 2021 (mae'r rheswm dros hyn yn anhysbys). Roedd ffigwr Cymru yn parhau'n 2.3%.

Roedd 48% o drafodion wedi eu cynnal dros y we yn ystod Gorffennaf i Medi 2021, o'i gymharu â chyfanswm y nifer o drafodion a gynhaliwyd yn defnyddio holl sianeli mynediad. Mae hyn yn 8% o ostyngiad ar ffigyrau Ebrill i Mehefin, ac mae'n flaenoriaeth ar gyfer gwella.

Roedd 79% o ffyrdd a phalmentydd wedi eu difrodi wedi eu gwneud yn ddiogel o fewn amser targed. Er bod hyn yn welliant yn y perfformiad yn ystod Ebrill i Mehefin (67%), mae perfformiad yn parhau i gael ei ystyried yn flaenoriaeth ar gyfer gwella.

## Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

### Yn cadw at y targed: Bandeang Cyflym Iawn a Rhwydweithiau Ffonau Symudol

Mae'r cyngor yn parhau i gefnogi unigolion a busnesau sy'n dioddef gyda chysylltedd gwael. Hyd yma, mae 138 o unigolion a busnesau wedi eu cynghori, ac 84 o'r rhain wedi canfod ateb i'w problemau. Rydym hefyd yn parhau i bwyso ar Openreach i ddatblygu prosiect Nantglyn (a'r pentrefi cyfagos).

Mae ein Swyddog Digidol yn parhau i weithio gyda chymunedau i gael rhyngrwyd ffibr. Roedd cynllun talebau swm atodol gigabit Llywodraeth Cymru all-lein am bron 6 mis, sydd wedi gohirio cynnydd. Yn anffodus, mae'r wefan sy'n dangos eiddo cymwys bellach wedi'i dileu wrth i ddata newydd am gynlluniau Openreach ar gyfer y dyfodol gadel ei ddadansoddi. Gallai hyn arwain at lai o eiddo yn Sir Ddinbych yn gallu ymgeisio am daleb swm atodol Llywodraeth Cymru sydd wir ei angen. Mae'r cyngor hefyd yn cysylltu â chynghorau cymuned i hybu Partneriaethau Ffibr Cymunedol ac i hysbysu ardaloedd anghysbell am y diffodd telephoni copr ym mis Rhagfyr 2025.

### Yn cadw at y targed: Eithrio Digidol

Mae gan bob llyfrgell ofod digidol dynodedig bellach. Mae'r gofodau hyn wedi cael eu hagor fel bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu eu harchebu yn uniongyrchol heb yr angen i gael eu hatgyfeirio gan ddarparwr. Mae'r gofodau yn sicrhau digon o breifatrwydd fel gall y defnyddiwr, er enghraifft, eu defnyddio i dderbyn cymorth sgiliau digidol 1 i 1 gan wirfoddolwr digidol, neu gael mynediad at hyfforddiant ar-lein a chyfweliadau swyddi ar fideo, heb ymyrryd ar ddefnyddwyr eraill y llyfrgell.

### Yn cadw at y targed: Seilwaith ar gyfer Digwyddiadau

Mae cynrychiolwyr prosiect wedi mynychu pob un o'r chwech o Grwpiau Ardal yr Aelodau i roi gwybod am nod, meini prawf ac amserlenni y gronfa pecyn cefnogaeth a dargedwyd. Anfonwyd llythyrau yn egluro'r cynllun at yr holl Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 30 Medi 2021, ac mae'r Tîm Datblygu Cymunedol yn paratoi llythyrau cynnig a dogfennaeth gysylltiol ar hyn o bryd i holl ymgeiswyr llwyddiannus.

Mae gwaith wedi dechrau ar frandio'r cerbyd a'r trelar fydd yn cefnogi'r cynllun llogi offer symudol. Mae holl offer llogi bellach yn cael ei storio yn Theatr Pafiliwn y Rhyl, gyda rhai offer mwy (e.e. rhwystrau) yn cael eu storio yn yr Arena Ddigwyddiadau.

Disgwylir i gyfweliadau gyda hyrwyddwyr ddechrau o fis Medi 2021 yn barod ar gyfer tymor yr Haf 2022.

**Brîff Prosiect: Teithio i’r Gwaith, Addysg a Gwasanaethau**

Mae’r Bwrdd Rhaglen Cynllun Corfforaethol wedi gofyn am achos busnes i ddatblygu Cynllun Cludiant Cynaliadwy’. Bydd y cynllun yn cefnogi’r agenda lleihau carbon.

## Llinynnau mesur blynyddol neu bob dwy flynedd

| Llinyn Mesur | 2019 i 2020 | 2020 i 2021 | Statws |
|---|---|---|---|
| Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - wedi’i feincnodi yn genedlaethol | 3.6 | 3.5 | Derbyniol |
| Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - wedi’i feincnodi yn genedlaethol | 5.3 | 5 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - wedi’i feincnodi yn genedlaethol | 8.2 | 7.6 | Da |
| Canran yr oedolion (16 oed neu hŷn) sydd wedi defnyddio’r rhyngrwyd o fewn y 3 mis diwethaf (Conwy a Sir Ddinbych) - wedi’i feincnodi yn lleol | 87.7 | 89.8 | Derbyniol |

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

| Llinyn Mesur | 2014 | 2019 | Statws |
|---|---|---|---|
| Canran o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAau) yn Sir Ddinbych yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Mynediad i Wasanaethau (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru - WIMD) | 14 | 14 | Amherthnasol<br>Cyfrif yn unig |

## Llinynnau mesur chwarterol neu bob dwy flynedd

| Llinyn Mesur | Chwarter 2 2020 - 2021 | Chwarter 3 2020 - 2021 | Chwarter 4 2020 - 2021 | Chwarter 1 2021 - 2022 | Chwarter 2 2021 - 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran Gwasanaeth Cyflym Iawn yn Sir Ddinbych (>30 Mbps) - wedi'i feincnodi yn lleol | 91.83 | 91.87 | 92.23 | 92.63 | 92.75 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran yr eiddo gyda Bandeang 10 Mbps neu lai - wedi'i feincnodi yn lleol | 4.76 | 4.71 | 4.45 | 4.34 | 4.33 | Derbyniol |
| Canran y trafodion a wneir ar y we, o'i gymharu â nifer llawn y trafodion a wneir gan ddefnyddio pob sianel fynediad. | 48 | 50 | 50 | 56 | 48 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran arwyddion ffordd 4G symudol (holl weithredwyr) - wedi'i feincnodi yn lleol | Dim data | 49.8 | Dim data | 49.2 | Data i ddod | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

| Llinyn Mesur | Chwarter 2 2020 - 2021 | Chwarter 3 2020 - 2021 | Chwarter 4 2020 - 2021 | Chwarter 1 2021 - 2022 | Chwarter 2 2021 - 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y ffyrdd a phalmentydd a ddifrodwyd a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (CAT1 – Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen) - wedi'i feincnodi yn lleol. | Dim data oherwydd Covid-19 | Dim data oherwydd Covid-19 | 87 | 67 | 79 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

## Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt cadernid amgylcheddol, ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y tri mis aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol:

### Pont Llannerch

Mae gweithdai wedi eu cynnal gydag ymgynghorwyr ac mae'r Cyngor wedi cwrdd gyda phartneriaid eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru i edrych ar ddewisiadau posibl ar gyfer disodli'r bont. Roedd ein hymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd, yn defnyddio cyfryngau ar-lein yn gofyn am farn ar ddisodli'r bont.  Roeddem hefyd wedi estyn allan at breswylwyr yn ystod Medi a Hydref yn Nhrefnant a Thremeirchion i gasglu eu barn ar y strwythur disodli. Y cam nesaf fydd i'r Cabinet drafod y posibilrwydd o ddisodli'r bont ym mis Tachwedd, ble bydd penawdau o'r asesiad cychwynnol o'r ymatebion i'n hymgysylltiad yn cael eu cyflwyno.

Bydd unrhyw brosiect i ddisodli'r bont yn cynnwys y pump ffordd o weithio o dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy, edrych ar ddatrysiad hirdymor sy'n atal niwed pellach, integreiddio a chydweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i geisio ateb, tra wrth gwrth yn cynnwys preswylwyr lleol i ddatblygu dewis ar gyfer unrhyw strwythur disodli. Byddai prosiect o'r fath hefyd o fudd i breswylwyr lleol dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

### Allgáu digidol: cysylltedd ar-lein mewn cartref gofal preswyl

Diweddarwyd yr isadeiledd i fand eang cyflym iawn yng Nghysgod y Gaer gyda chyflymder lawrlwytho o 65mg, gan alluogi preswylwyr yn y cartref i wneud mwy o ddefnydd o ddyfeisiau clyfar i gadw mewn cysylltiad â'u hanwyliaid a'u ffrindiau. Mae iPads, Alexa a dyfeisiau Porthol nawr yn cael eu defnyddio'n eang gan breswylwyr ac mae staff wedi eu hyfforddi i gynnig cefnogaeth gyda'r dechnoleg newydd. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi nodwedd gwarchodedig oed, yn dangos sut yr ydym wedi cefnogi lles pobl hŷn drwy eu helpu i gysylltu ag eraill yn ystod cyfnod hynod ynysig.

Mae'r prosiect eithrio digidol yn cynnwys y pump ffordd o weithio o dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy, edrych ar ddatrysiadau hirdymor sy'n atal ynysu, eithrio a thlodi data, drwy integreiddio a chydweithio gyda phartneriaid tra'n cynnwys defnyddwyr.

### 1Bws

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r chwech awdurdod yng Ngogledd Cymru, gweithredwyr bws a Thrafnidiaeth Cymru, mae'r cyngor yn falch i gefnogi'r 1 tocyn bws i deithio ar fysus ar draws Gogledd Cymru a lansiwyd yn y Rhyl ym mis Awst. Bydd tocyn oedolyn yn costio £5.70, plentyn (neu berson ifanc gyda Fy Nhocyn Teithio yn talu £3.70), fel deilwyr tocyn teithio rhatach yng Nghymru a'r Alban. Mae tocyn teulu yn £12. Bydd y fenter gobeithio yn annog mwy o ddefnydd o fysiau yn y rhanbarth, felly hefyd yn helpu i ddiogelu ein hamgylchedd.

Mae hwn yn brosiect cydweithredol gwych fydd o fudd i'r sawl dan anfantais economaidd-gymdeithasol, gan dynnu rhwystrau sy'n atal pobl rhag teithio. Mae'n enghraifft wych o feddwl hirdymor, integreiddio uchelgeisiau ar gyfer y rhanbarth a hefyd wedi dod o ganlyniad i wrando ar adborth gan gwsmeriaid, oedd yn dweud fod tocynnau bws yn ddryslyd. Mae'n enghraifft o gynnwys cwsmeriaid yn datblygu gwasanaethau.

## Cymunedau Cryf: Mae’r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid

Llinynau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Da

### Fframwaith Perfformiad Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â’r Llinynnau Mesur

Roedd Trosedd Domestig yn Sir Ddinbych wedi cynyddu yn chwe mis cyntaf 2021 i 2022. Ar y cyfan, mae Gogledd Cymru wedi gweld cynnydd o 14.2% mewn Trosedd Domestig hyd yma eleni.

Bu cynnydd o 23.4% yn y nifer cronnus o ddioddefwyr cyson trais domestig eleni, o’i gymharu â’r un amser y llynedd. Mae ffigyrau wedi cynyddu o 269 i 332 o ddioddefwyr. Yn gyffredinol, mae Gogledd Cymru wedi gweld 2.5% o ostyngiad mewn dioddefwyr cyson trais domestig o fis Gorffennaf i fis Medi 2021.

Mae’r nifer sy’n cam-drin yn ddomestig dro ar ôl tro yn chwe mis cyntaf 2021 i 2022 wedi gostwng yn sylweddol yn Sir Ddinbych. Mae’r ffigyrau wedi gostwng o 50 o ddioddefwyr yr amser yma llynedd i 35 o ddioddefwyr, 30% o ostyngiad. Mae’r darlun cyffredinol ar gyfer Gogledd Cymru rhwng Gorffennaf a Medi 2021 yn dangos bod aildroseddwyr Cam-drin Domestig wedi gostwng 38%.

Ar wefan genedlaethol Dewis Cymru mae’r nifer o adnoddau ar gyfer Sir Ddinbych yn 620 ar ddiwedd mis Medi. Mae hyn yn gynnydd o 14% ar y ffigyrau a welsom ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Mae’n bosibl bod pandemig Covid-19 wedi arwain pobl a darparwyr gwasanaeth i ddefnyddio’r platfform hwn yn fwy rheolaidd. Ar ddiwedd Medi 2021, roedd yna 10,781 o adnoddau ar gyfer Cymru ar Dewis Cymru a 2,752 ar gyfer Gogledd Cymru.

Mae’r nifer o asesiadau gofalwyr a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf a Medi yn 221. Mae hyn yn 45% o ostyngiad ers yr un cyfnod y llynedd (gostyngiad o 99 asesiad). Mae’r gefnogaeth i ofalwyr wedi parhau ac mae cefnogaeth gymunedol wedi bod ar gael pa un a yw gofalwyr wedi derbyn asesiad ai peidio.

Mae data ar gyfer faint o amser mae oedolion (65 oed neu hŷn) yn derbyn cefnogaeth mewn cartrefi gofal preswyl wedi gostwng ychydig i 1,050 diwrnod am y cyfnod rhwng Gorffennaf a Medi. Fodd bynnag, o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, ble roedd yna 1,028 asesiad, mae'r ffigwr wedi cynyddu 2.2%. Er bod ein ffigyrau yn parhau'n uchel mewn perthynas â chyfartaledd Cymru (800), deellir bod gan Sir Ddinbych boblogaeth oedran cyfartaledd uwch. Rydym yn parhau o fewn ein targed gwreiddiol o 1,200 diwrnod.

## Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

### Yn profi rhwystrau: Cyfrannu at ddatblygu a gwella gwasanaethau

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom lansio ein harolwg blwyddyn 2, a gynhaliwyd tan 30 Medi 2021. Bydd canfyddiadau yn cael eu rhannu cyn diwedd y flwyddyn. Cafodd dau weithdy eu cynnal ym mis Medi, gyda thrydydd gweithdy wedi'i drefnu ar gyfer dechrau mis Hydref gyda'r Cyngor Ieuenctid. Mae trafodaethau'n parhau i sicrhau datrysiad ymgysylltu newydd ar-lein y tu hwnt i oes y prosiect. Er y cytunwyd ar y cais i newid hwn gyda'r Bwrdd Rhaglen Cynllun Corfforaethol, mae trafodaethau gyda TGCh yn dangos bod angen dod o hyd i ddatrysiad drwy ffynhonnell allanol o bosibl. Mae'r llwybr presennol sy'n cael ei archwilio yn hysbysiad 'diddordeb hapfasnachol' ar GwerthwchiGymru fydd yn gwahodd cwmniau i ddangos datrysiadau.

### Yn profi rhwystrau: Cefnogi gofalwyr

The Mae'r Tîm Prosiect Cefnogi Gofalwyr yn parhau i fynd i'r afael â heriau a lliniaru unrhyw risgiau sy'n codi o Covid-19. Mae syniadau a chynlluniau arfer gorau ar gyfer ailddechrau cefnogaeth wyneb i wyneb ar y gweill, er bod yna gonsensws gan aelodau nad ydynt yn dymuno colli gwasanaethau ar-lein a byddant yn parhau i gynnig dewis; gwelwyd llawer o fudd drwy ddefnyddio platfform ar-lein yn estyn allan at fwy o ofalwyr.

Mae Arolwg Gofalwyr wedi bod ar gael yn ddiweddar drwy Borthol Ymgysylltu Sgwrs y Sir, sydd bellach ynghau gyda'r canlyniadau yn cael eu dadansoddi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi hysbysu'r Awdurdod Lleol am ddyfarniad grant i roi seibiant nad yw'n draddodiadol i ofalwyr, bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i gwrdd â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau seibiant a achoswyd gan effaith y pandemig ar iechyd

meddwl a chorfforol gofalwyr. Mae hyn yn rhan o'u hymrwymiad i'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer gofalwyr i flaenoriaethu'r cynnydd yn y galw am ganolfannau dydd a mwy o wasanaethau eistedd gyda phobl a gofal amgen ar ôl Covid-19. Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi'i gomisiynu i weithio gyda Phrifysgolion Bangor ac Abertawe i lunio map ffordd ar gyfer seibiant y gellir ei ddefnyddio i hysbysu sut mae'r arian hwn yn cael ei wario.

Mae 76 Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc wedi eu cyflwyno yn Sir Ddinbych a defnyddir fel dull adnabod derbyniol, er enghraifft gyda brechlynnau yn y coleg a'r brifysgol. Y camau nesaf yw datblygu Ap a chodi ymwybyddiaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol; Gofalwyr Ifanc Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych â chyllid ar gyfer gwasanaeth dan 8 a bellach mae yna 8 aelod yn Sir Ddinbych.

### Yn cadw at y targed: Lleihau Cam-drin Domestig

Mae polisi cam-drin domestig y cyngor wedi'i lansio ac mae staff y cyngor yn atgyfeirio tadau i'r sesiynau Tadau Gofalgar fel rhan o waith ymyrraeth gynnar. O ran y ffrwd gwaith cyflawnwr, mae gwaith ymyrraeth gynnar angen datblygu mwy gyda'r Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig (DASU) ar gyfer darparu hyfforddiant yn yr hydref neu'r gaeaf. Mae ein ffrydiau gwaith terfynol ar wirfoddoli a buddion cymunedol hefyd wedi dechrau.

Cyflwyno sesiynau hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Lefel 2 i staff rheng flaen wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref i fis Mawrth 2022. Mae cyfanswm o 22 sesiwn wedi eu trefnu. Bydd Hafan Cymru yn targedu ysgolion sydd heb dderbyn hyfforddiant blaenorol ar gam-drin domestig o dan y fenter Sbectrwm.

### Yn cadw at y targed: Gweithio at fod yn Gyngor sy'n Deall Dementia

Roedd Tîm Prosiect Deall Dementia y Cyngor wedi derbyn cydnabyddiaeth gan y Gymdeithas Alzheimer's ar gyfer gweithio tuag at fod yn sefydliad sy'n Deall Dementia. Mae gwaith yn parhau i godi ymwybyddiaeth o Ddementia o fewn y Cyngor. Mae'r prosiect hwn bellach wedi'i nodi yn 'fusnes fel arfer' ac ni adroddir o fewn ein hadroddiadau rheoli perfformiad chwarterol mwyach.

### Yn cadw at y targed: Datblygiad Cymunedol ledled y Sir

Mae system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd a sefydlwyd gan y Tîm Datblygu Cymunedol bellach yn fyw a gobeithio y bydd yn ased defnyddiol i olrhain a chofnodi holl ymholiadau a dderbyniwyd gan y tîm am gefnogaeth. Mae'r Tîm wedi bod yn ymwneud â hyrwyddo a sgorio Cronfeydd Seilwaith Digwyddiadau ac ar hyn o bryd yn paratoi llythyrau cynnig a dogfennaeth gysylltiol i holl ymgeiswyr llwyddiannus. Mae Swyddogion Datblygu Cymunedol hefyd wedi mynychu panel grantiau yn ddiweddar ar gyfer y Gronfa Gwaddol Addysg a chronfeydd melin wynt Clocaenog a Gwynt y Môr. Mae'r Tîm yn parhau i aros am ganlyniadau'r Ceisiadau ar restr fer Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, ond yn y cyfamser wedi penodi Swyddog Cydymffurfio a Monitro ar gyfer y gronfa. Mae'r Tîm Datblygu Cymunedol hefyd wedi bod mewn cysylltiad gyda'r Rhwydwaith Banc Bwyd i'w hysbysu am newidiadau i Gredyd Cynhwysol ac asesu'r sefyllfa o ran rhoddion i'r banc bwyd galw heibio. Bydd y Tîm yn lansio rownd Symiau Cymudo Mannau Agored eleni ym mis Hydref gyda £128k ar gael.

## Llinynnau mesur blynyddol neu bob dwy flynedd

Ni ddisgwylir data 2020 i 2021 ar gyfer y mesurau canlynol nes bydd yr arolygon gofalwyr a rhanddeiliaid wedi eu cynnal ar ddiwedd yr haf a'r hydref.

| Llinyn Mesur | 2018 i 2019 | Statws |
|---|---|---|
| Canran o bobl sy'n dweud eu bod wedi derbyn yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan roeddent ei angen - wedi ei feincnodi yn lleol | 88 | Derbyniol |
| Canran o ofalwyr sy'n dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i barhau yn eu rôl gofalu - wedi ei feincnodi yn lleol. | 55 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gwybod pwy i gysylltu â nhw am eu gofal a chefnogaeth - wedi ei feincnodi yn lleol. | 84 | Derbyniol |

| Llinyn Mesur | 2018 i 2019 | Statws |
|---|---|---|
| Y ganran o bobl sy'n cytuno "mae fy ardal leol yn le ble bydd pobl yn tynnu at ei gilydd er mwyn gwella'r ardal leol" - wedi'i feincnodi yn lleol | 59 | Derbyniol |
| Y ganran o bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio eu hardal leol - wedi'i feincnodi yn lleol. | 27 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

## Llinynnau mesur chwarterol neu bob dwy flynedd

| Llinyn Mesur | Chwarter 2 2020 - 2021 | Chwarter 3 2020 - 2021 | Chwarter 4 2020 - 2021 | Chwarter 1 2021 - 2022 | Chwarter 2 2021 - 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y nifer cronnus (blwyddyn hyd yma) o ddioddefwyr Cam-drin domestig mwy nag unwaith gan gynnwys digwyddiadau nad ydynt yn drosedd (3 neu fwy mewn 12 mis, mesurir am y flwyddyn hyd yma). | 269 | 371 | 555 | 148 | 332 | Amherthnasol Cyfrif yn unig |
| Y nifer cronnus (blwyddyn hyd yma) o ddioddefwyr Cam-drin domestig mwy nag unwaith (3 neu fwy mewn 12 mis). | 50 | 70 | 108 | 18 | 35 | Amherthnasol Cyfrif yn unig |

| Llinyn Mesur | Chwarter 2 2020 - 2021 | Chwarter 3 2020 - 2021 | Chwarter 4 2020 - 2021 | Chwarter 1 2021 - 2022 | Chwarter 2 2021 - 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y nifer o adnoddau byw ar Blatfform Dewis Cymru - wedi'i feincnodi yn lleol | 543 | 562 | 623 | 565 | 620 | Rhagorol |
| Nifer yr asesiadau o anghenion cymorth ar gyfer gofalwyr a wnaed yn ystod y flwyddyn | 320 | 404 | 878 | 114 | 221 | Amherthnasol Cyfrif yn unig |
| Cyfartaledd yr amser (mesurir mewn dyddiau) mae oedolion (65 oed neu hŷn) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl - meincnodi yn genedlaethol. | 1,028 | 1,046 | 1,053 | 1,053 | 1,050 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

## Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a wnaed o fis Gorffennaf i fis Medi yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol:

### Amser i Newid Cymru

Yn ôl ym mis Mai roeddem yn Gyflogwr Amser i Newid Cymru. Mae'r addewid hwn yn ymrwymiad cyhoeddus i newid y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn gweithredu am iechyd

meddwl ar bob lefel o'r sefydliad. Rydym wedi ymrwymo i roi diwedd ar y stigma o amgylch iechyd meddwl a bellach rydym wedi lansio ein modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl gorfodol newydd. Rydym hefyd wedi trefnu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ar gyfer Rheolwyr. Dylai holl reolwyr a goruchwylwyr fynychu'r hyfforddiant hwn. Mae llawer o wybodaeth gefnogol ar gael ar ein tudalennau gwefan Iechyd Meddwl a Lles Gweithwyr.

Mae'r gwaith hwn yn cefnogi nodweddion a ddiogelir o Anabledd ac mae'n gwbl hygyrch i holl staff. Wedi'i integreiddio gydag amcanion BIPBC ac Iechyd y Cyhoedd, mae'n enghraifft wych o gydweithio sy'n ceisio cynnwys staff sydd wedi profi materion iechyd meddwl, gan gynnig cymorth a chefnogaeth ar gyfer eu lles hirdymor ac atal niwed.

## Ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig

Crewyd polisi cam-drin domestig newydd gan y Cyngor ac ar gael ar ein gwefan. Mae'r cyngor wedi cymryd camau i hyrwyddo'r polisi ac i gefnogi addysg ac ymwybyddiaeth o gam-drin domestig. Mae 90% o blant â rhieni sydd wedi eu cam-drin yn dyst i'r gamdriniaeth honno. Mae'r effeithiau yn drawmatig a hirdymor. Pan mae plentyn yn dyst i gam-drin domestig, mae hyn yn gam-drin plant. Mae rhwng 40% a 70% o'r plant hyn hefyd yn ddioddefwyr uniongyrchol o'r cam-drin sy'n digwydd gartref. Mae gwybodaeth ar yr ymgyrch Byw Heb Ofn ar gael yn y wefan y Llywodraeth Cymru i gael gwybodaeth.

Bydd y polisi o fudd i nodweddion a ddiogelir Rhyw ac Oedran, yn ogystal â holl bobl sy'n byw gyda cham-drin domestig ac yn profi effeithiau'r gamdriniaeth hon. Mae creu'r polisi hwn yn gyfraniad i agenda hirdymor cydweithio llawer mwy, ble rydym wedi integreiddio ein hamcanion gyda phartneriaid, fel Heddlu Gogledd Cymru i amddiffyn hawliau pobl ddiamddiffyn, beth bynnag eu cefndir economaidd-gymdeithasol a cheisio atal unrhyw niwed i unrhyw un.

## Seibiant i ofalwyr di-dâl

Mae dau fflat wedi eu hadnewyddu yng Nghorwen a Rhuthun fel rhan o ymrwymiad y cyngor i gefnogi gofalwyr di-dâl. Bydd y rhain yn cynnig seibiant byr i ofalwyr di-dâl. Mae'r ddau eiddo yn cynnwys cyfleusterau modern a fydd yn caniatau i ofalwyr a/neu'r sawl maent yn gofalu amdanynt i gael seibiant. Mae mynediad hawdd i'r fflatiau, ynghyd ag addasiadau i'w gwneud nhw'n addas i bobl anabl, ac mae cyfleusterau ar gael i gael

cymorth dros nos os oes angen. Mae'r datblygiad yma'n adeiladu ar gynllun prawf llwyddiannus yn Rhuthun, lle bu modd i ofalwyr di-dâl elwa o seibiannau yng Nghynllun Gofal Ychwanegol Llys Awelon, mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-Ddwyrain Cymru.

Bydd y gwaith hwn o fudd uniongyrchol i nodweddion a ddiogelir Oed, Anabledd, Rhyw, Priodas a Phartneriaeth Sifil (yn arbennig i gefnogi gofalwyr di-dâl sy'n gofalu am aelodau o'r teulu, priod, partner ac ati) a'r sawl dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r gwaith hwn, a ddarperir mewn partneriaeth gyda'n cartrefi, yn dangos integreiddio da ar gyfer recriwtio, cydweithio a meddwl hirdymor. Mae cynnwys unigolion mewn asesiad o'u sefyllfa yn hynod bwysig, gan ei fod yn rhoi mwy o reolaeth iddynt dros gael mynediad i'r pecynnau cefnogaeth cywir pan fyddant eu hangen fwyaf ac mae darparu seibiant fel hyn yn bwysig i gynnal ac atal niwed i les y gofalwr a'r sawl maent yn gofalu amdanynt.

## Cynlluniau Byw â Chymorth Anabledd Dysgu Sir Ddinbych

Mewn cyfarfod o'r Cabinet ym mis Medi, rhoddwyd cymeradwyaeth i gyflwyno estyniad dros dro i 35 contract Cynllun Byw â Chymorth Anabledd Dysgu ar gyfer uchafswm cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023. Rhoddwyd cymeradwyaeth ychwanegol ar gyfer y broses cynnal tendrau bach ar gyfer 41 contract o dan Fframwaith Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Byw â Chymorth ar gyfer y ddarpariaeth hon.

Mae cymeradwyaeth yn golygu y gallwn barhau i gynnwys a chefnogi pobl gyda nodweddion a ddiogelir, fel **Oed, Anabledd,** neu'r sawl **dan anfantais economaidd gymdeithasol**, yn lefel y gefnogaeth sydd ei hangen i'w helpu i fyw'n annibynnol, gan **atal** unrhyw niwed yn y tymor byr. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad hwn yn llywio cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau yn yr **hirdymor** ac yn dangos ein hymrwymiad i **gydweithio** ac mewn ffordd **integredig** o fewn Fframwaith Rhanbarthol Gogledd Cymru.

## Gofal maeth

Mae Sir Ddinbych wedi ymuno â 'Maethu Cymru' mewn ymdrech i gyfuno arbenigedd cenedlaethol a chynyddu'r nifer ac amrywiaeth o ofalwyr maeth sydd ar gael, i ddal i fyny gyda'r nifer o blant sydd angen gofal a chefnogaeth. Mae hyn o fudd i nodweddion a ddiogelir **Oed, Anabledd** ac **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Bydd cydweithio fel hyn, gyda dull integredig i les plant, yn ein galluogi i atal niwed i bobl ifanc a chael mwy o ddewis wrth gyfateb plentyn, dod o hyd i'r teulu maeth cywir i fodloni eu hanghenion hirdymor.  I wybod mwy am faethu ewch i [Maethu a mabwysiadu | Cyngor Sir Ddinbych (denbighshire.gov.uk)]

## Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

Llinynau mesur: Da
Prosiectau: Rhagorol

### Fframwaith Perfformiad Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae ein fframwaith mesurau ar gyfer y flaenoriaeth hon yn ymwneud yn llwyr â data blynyddol. Mae tri mesur yn deillio o'n Harolwg Rhanddeiliaid a gynhelir nesaf yn yr hydref 2021.

Mae data blynyddol newydd wedi'i gyhoeddi yn seiliedig ar Fonitor Gweithgarwch Economaidd Twrisitaeth Scarborough (STEAM). Mae hyn yn dangos bod cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn Sir Ddinbych wedi cynyddu o £490.35miliwn yn 2017 i £552.35miliwn yn 2019. Fel y rhagwelir, fodd bynnag, mae hyn wedi gweld gostyngiad o 61% i £213miliwn yn 2020. Serch hynny, o gymharu ag awdurdodau eraill, mae economi Sir Ddinbych wedi perfformio'n dda o ystyried yr amgylchiadau.

### Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

#### Yn profi rhwystrau: Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi derbyn Gwobr Efydd y Sefydliad Llythrennedd Carbon fel rhan o'i ymgyrch i fod yn gyngor carbon niwtral. Mae'r Cyngor wedi dod yn un o ddim ond 52 o sefydliadau llythrennog o ran carbon yn y DU ac Iwerddon a'r Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i wneud hynny. Mae'r Prosiect Llythrennedd Carbon yn gynllun hyfforddiant unigryw i gefnogi sefydliadau a gweithwyr unigol i ddeall yr effeithiau y mae eu gweithredoedd bob dydd yn ei gael o ran carbon ac yn eu helpu i wneud dewisiadau deallus i fynd i'r afael â newid hinsawdd a gostwng allyriadau carbon.

Ar hyn o bryd, mae hyder darparu ein rhaglen yn ystod y flwyddyn yn wynebu rhwystrau. Mae symud prosiectau o gyfnod cysyniad a datblygu i'r cam darparu wedi cymryd mwy na'r disgwyl oherwydd capasiti staff, gan arwain at gymeradwyo gan y Grŵp Buddsoddiad

Strategol ar gyfer prosiectau cyfalaf 2021 i 2022 yn cael ei sicrhau yn hwyrach na'r rhagwelir. Mae hyn wedi cywasgu amser darparu a bydd yn achosi risg ychwanegol i brosiectau, yn arbennig yn y Ffrydiau Gwaith Adeiladu a Fflyd. Wedi dweud hynny, disgwylir y bydd yna ddigon o amser cyn Mawrth 2022 i gwblhau'r mwyafrif o'r gweithgaredd a fwriedir a gwireddu buddion yn llawn o'r gwanwyn a'r haf y flwyddyn nesaf.

Mae hyder darparu 2030 wedi'i gyfaddawdu, yn bennaf oherwydd bod y cyngor ar y cyflymder sydd ei angen i leihau carbon a chynyddu dal a storio carbon ar y raddfa flynyddol a ragwelir sy'n ofynnol i gyrraedd targed Di-garbon Net y Cyngor. Mae'r llwybr Di-garbon Net wedi'i addasu i wneud mwy ar ochr gostwng allyriadau carbon a llai ar ochr dal a storio carbon. Bydd cyflawni llai y flwyddyn ariannol hon yn golygu bod angen cyflawni mwy yn y dyfodol. Mae nod Cyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 yn parhau ar y trywydd iawn ar hyn o bryd.

### Yn cadw at y targed: Plannu Coed

Mae cynllunio prosiect a chaffael ar gyfer tymor plannu 2021 i 2022 yn parhau gyda'r union gynllunio yn cael ei wneud rhwng Rhagfyr 2021 a Mawrth 2022.

### Yn cadw at y targed: Gwaith Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl

Gwaith ar y promenâd yn parhau i ddatblygu yn ôl y disgwyl. Mae gwariant ariannol yn parhau o fewn targed gydag 83.4% o'r costau canlyniad a amcangyfrifir nawr wedi'i wario.

### Yn cadw at y targed: Gwella bioamrywiaeth

Fel rhan o ymrwymiad parhaus y Cyngor i wella bioamrywiaeth ar draws y sir, mae bron 60 o safleoedd, gan gynnwys ymylon priffyrdd, ymylon llwybrau troed, llwybrau beiciau a glaswelltiroedd amwynder yn cael eu rheoli i greu dolydd blodau gwyllt. Mae'r safleoedd hyn, ynghyd â'r 11 o warchodfeydd natur ar ochr y ffordd, yn gyfystyr â 30 o gaeau pêl-droed a reolir fel dolydd blodau gwyllt brodorol yn Sir Ddinbych. Yn ogystal â diogelu blodau gwyllt, mae'r dolydd hefyd yn cefnogi lles pryfaid sy'n frodorol i ardal Sir Ddinbych. Mae Pryfaid Hofran Cacynaidd (Hornet Hoverflies) wedi'u gweld mewn safleoedd dolydd blodau gwyllt yn Rhuddlan a Phrestatyn yn ddiweddar, a ddaeth i Brydain am y tro cyntaf yn y 1940au. Gellir eu gweld o fis Mai tan fis Hydref ac er eu bod yn debyg i wenyn meirch sy'n pigo, maen nhw'n ddiniwed.

## Yn cadw at y targed: Coridor Natur

Mae'r haf wedi bod yn brysur gyda sawl digwyddiad a nifer o sesiynau gwirfoddolwyr yn cael eu cynnal. Rhoddwyd sylw i sawl safle, gan gynnwys rhandir Ffordd Cilgant ble gwnaed llawer o gynnydd i drawsnewid y safle i safle gwyrdd trefol a chael y gymuned i gyfrannu at wneud hynny, yn ogystal â'n safleoedd arferol yng Nghoed y Morfa a Glan Morfa. Rydym hefyd wedi bod yn cynnal teithiau cerdded Nordig a sesiynau crefftio ar draws ardal y prosiect, drwy gael y sawl â symudedd cyfyngedig allan ac yn weithgar a chymdeithasu. Mae sawl digwyddiad wedi'i gynnal, gan gynnwys ymwybyddiaeth sbwriel morol a digwyddiad dathlu diwedd cynaeafu rhandir, i ddod â phobl ynghyd a thynnu sylw at faterion. Mae ymgysylltiad ag ysgolion wedi'i gynnal gydag amrywiaeth o sesiynau wedi eu cynllunio ar gyfer y misoedd i ddod, gan gynnwys teithiau addysg i'r traeth, celf amgylcheddol a phlannu coed. Wrth i'r prosiect symud ymhellach i'w flwyddyn olaf, mae nifer o'r camau ar fin cael eu cwblhau, gyda'r ffocws nawr ar dymor olaf y gaeaf o blannu coed, gwella Cynefin a phrosiectau gwella tir ysgol, yn ogystal â chreu deunydd fel taflenni, adnoddau dysgu ac ati. Mae ffocws hefyd ar barhau'r prosiect drwy ffynonellau eraill fel prosiectau eraill a ariannwyd a grwpiau cymunedol.

## Yn cadw at y targed: Rheoli Rhostir

Wrth i gyfyngiadau gael eu codi, mae wedi bod yn bosibl i swyddogion ddod yn fwy cyfarwydd â'r ardal mae'r prosiect yn ymwneud â hi, drwy gyfarfod gyda thirfeddianwyr a ffermwyr. Mae'r asesiad risg tanau gwyllt hefyd wedi gwneud cynnydd ac wedi'i ddefnyddio ar gyfer nifer o leoliadau ucheldir. Mae'r cynllun ar gyfer cam 2 o'r gwaith adfer difrod tanau gwyllt 2018 ar Fynydd Llantysilio bellach wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a sicrhawyd cyllid. Bydd y cynllun nawr yn cael ei weithredu yn ystod cyfnod yr hydref a'r gaeaf gyda chaffael ar gyfer gwaith ym mis Hydref. Bydd contractwyr yn cynnal arolwg cyflwr rhostir yn 2022.

## Yn cadw at y targed: Asedau Byw

Mae cyfarfodydd safle wedi eu cynnal gyda chydweithwyr i drafod cynlluniau plannu coed cysylltiedig â'r Argyfwng Ecolegol a Newid Hinsawdd. Bydd trafodaethau gyda chydweithwyr ar ddull mwy strategol i reoli coed yn parhau er mwyn gwneud hyn yn fwy effeithiol ac yn well i'r coed. Bellach rydym yn bwriadu dathlu 'Asedau Byw' yn ystod

Wythnos Genedlaethol Coed (27 Tachwedd i 5 Rhagfyr). Rydym yn parhau i ddatblygu Strategaeth Goed a Choetir y cyngor.

### Yn wynebu risg: Tai Cyngor Effeithlon o ran Ynni

Mae hyder darparu yn parhau mewn perygl oherwydd effaith Covid-19, er hynny rydym wedi gweld llawer o welliannau i eiddo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, un ohonynt drwy ddarparu pympiau gwres ffynhonnell aer. Rydym nawr yn anelu i osod 150 arall yn ystod 2022 i 2023, fydd yn golygu uwchraddio'r mwyafrif o'r stoc dai. Yn y cyfamser, mae cynnydd yn parhau ar ei gwaith cyfalaf 2021 i 2022. Ym mis Medi, rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i ddyfarnu'r fframwaith gwelliannau allanol a dendrwyd yn ddiweddar i chwe chontractwr ac i dendro'r ddwy gyfres gyntaf o'r fframwaith drwy gystadleuaeth fechan.

## Llinynnau mesur blynyddol neu bob dwy flynedd

| Llinyn Mesur | 2019 i 2020 | 2020 i 2021 | Statws |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm allyriad tunelledd carbon drwy staff yn teithio i'r gwaith - wedi'i feincnodi'n lleol | 1,848 | 1,719 | Da |
| Cyfanswm allyriad tunelledd carbon drwy deithio at ddibenion busnes - wedi'i feincnodi'n lleol | 550 | 126 | Rhagorol |
| Cyfanswm allyriad tunelledd carbon drwy gadwyni cyflenwi - wedi'i feincnodi'n lleol | 22,710 | 22,206 | Da |
| Canran o dir gweithredol ac sy'n eiddo i'r cyngor yn y categoriau uchaf cyfoethog eu rhywogaethau - Meincnodi yn Lleol | 37.5 | 38.1 | Derbyniol |
| STEAM - Cyfanswm Effaith Economaidd Twristiaeth (£ miliwn) - wedi'i feincnodi'n lleol | 552.35 | 213.00 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

| Llinyn Mesur | 2019 i 2020 | 2020 i 2021 | Statws |
|---|---|---|---|
| Canran stoc dai presennol ac wedi'i gaffael gan y cyngor (gwaelodlin 1 Ebrill 2017) yn cyflawni graddfa EPC (Ynni) C neu fwy - wedi'i feincnodi'n lleol | 40 | 46 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Y nifer blynyddol o goed a blannwyd i gynyddu brigdwf yn Y Rhyl a Dinbych - wedi'i feincnodi'n lleol | 4300 | 4400 | Rhagorol |

Ni ddisgwylir y data ar gyfer 2020 – 2021 ar gyfer y tri mesur canlynol nes cynhelir yr Arolwg Rhanddeiliaid yn yr hydref 2021.

| Llinyn Mesur | 2018 i 2019 | Statws |
|---|---|---|
| Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? - Cefn gwlad - wedi'i feincnodi yn lleol | 87 | Rhagorol |
| Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? - Traethau - wedi'i feincnodi yn lleol | 70 | Da |
| Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? - Parciau - wedi'i feincnodi yn lleol | 64 | Da |

Ni adroddir ar y mesur o amgylch y nifer o eiddo gyda llai o berygl o lifogydd (1,000) nes bydd cynlluniau llifogydd a nodwyd wedi eu cwblhau, a ddechreuodd yn 2020.

## Llinynnau mesur chwarterol neu ddeuflynyddol

Ni adroddir ar ein mesur ar y ganran o holl dai cyngor newydd sy'n cyflawni graddfa EPC (Ynni) A nes cwblhawyd adeiladu'r tai newydd yn 2021.

## Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt cadernid amgylcheddol, ffyniant, iechyd,

cydraddoldeb, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol:

### Gerddi Botaneg

Mae ystod o fesurau i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngerddi Botaneg Y Rhyl wedi cael effaith llwyddiannus, gan gynnwys comisiynu cwmni diogelwch ar sail arbrofol i batrolio'r parc a chloi'r giatiau bob nos a gosod naw camera TCC ychwanegol yn y parc. Roedd adborth a ddarparwyd mewn cyfarfod yn cynnwys y cyngor, Cyfeillion y Gerddi Botaneg, Heddlu Gogledd Cymru, Aelodau Arweiniol Aelod Seneddol Dyffryn Clwyd yn dangos fod y mesurau a weithredwyd wedi cyfrannu at leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gerddi. Yn ogystal â'r mesurau presennol bydd Gwasanaethau Ieuenctid Sir Ddinbych hefyd yn mynd o amgylch y parc yn rheolaidd er mwyn siarad â phobl ifanc a phwysleisio mor bwysig yw parchu'r gerddi fel rhywle sy'n fuddiol i bawb.

Mae cynnwys pobl leol fel hyn a chydweithio ac mewn ffordd integredig wedi atal y sefyllfa rhag gwaethygu yn y gerddi tra'n gweithio tuag at ateb hirdymor gobeithio. Bydd y Cyngor yn meithrin cyswllt ag ysgolion lleol i gyfleu'r neges na chaiff ymddygiad gwrthgymdeithasol ei oddef yn y gerddi, a bod y gerddi'n gyfleuster i'r gymuned gyfan ei fwynhau. Mae hyn o fudd i nodweddion a ddiogelir Oed ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

### Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus

Ym mis Awst roedd y cyngor wedi lansio Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus i sicrhau bod perchnogion cŵn yn rheoli eu hanifeiliaid anwes tra'n defnyddio ardaloedd cyhoeddus yn y sir, gan gynnwys caeau chwaraeon. Mae yna hefyd gyfyngiadau ar draethau'r Rhyl a Phrestatyn rhwng Mai a Medi.

Mae'r gorchymyn wedi'i gyflwyno drwy gynnwys preswylwyr, sydd wedi cyflwyno nifer o gwynion ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan berchnogion cŵn nad ydynt yn rheoli eu hanifeiliaid anwes mewn mannau cyhoeddus. Er lles diogelwch y cyhoedd, bydd y gorchymyn yn helpu i atal unrhyw un rhag niwed ac yn caniatau i breswylwyr fanteisio ar fwynhad ein mannau cyhoeddus yn ddiogel yn yr hirdymor.

## Cefnogi Adferiad

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i weithio tuag at greu cymunedau cryf a chefnogi economïau sy'n ffynnu i ddarparu ansawdd bywyd da i breswylwyr. Wrth ragweld haf prysur, roedd y cyngor wedi gweithio i reoli'r cynnydd yn y nifer o ymwelwyr, gan ddarparu mannau parcio ychwanegol ym Moel Famau a Rhaeadr y Bedol, ceidwaid ychwanegol mewn man prydferth a sicrhau darpariaeth glanhau stryd a gweithrediadau rheoli gwastraff yn barod i gynyddu nifer yr ymwelwyr mewn mannau twristiaeth (oedd yn cynnwys glanhau trylwyr yn y Rhyl).

Mae gwaith fel hyn gobeithio yn annog ymwelwyr i weld ein sir fel lle hardd i ddychwelyd yno, yn ogystal â sicrhau bod cymunedau lleol yn fwy cadarnhaol am eu hamgylchedd, hefyd annog eu cyfraniad a pherchnogaeth i atal niwed i'n hasedau. Gobeithio y bydd yn dod â manteision hirdymor i'n hamglchedd a'r economi, gan gynnwys y sawl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Amddiffyn yr Arfordir

Rhwng Gorffennaf ac Awst roedd y cyngor wedi gwahodd preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr i ddweud eu dweud ar amddiffynfeydd arfordirol Y Rhyl, yn benodol ardal ganolog rhwng Parc Drifft a Splash Point. Mae'r promenâd yma yn rhan bwysig o hunaniaeth ac economi yn y Rhyl, ond mae dewisiadau yn debyg o fod yn gyfyng oherwydd yr hyn sydd ei angen yn gorfforol i ddiogelu'r dref. Mae dewisiadau yn cynnwys gosod deunyddiau i atal erydu ac atgyweirio concrid i'r wal môr presennol, wal gynnal i amsugno egni o'r tonnau a darparu mynediad i'r traeth, wal amddiffynfa rhag llifogydd newydd a chodi uchder y promenâd a lledu'r promenâd y tu ôl i faes parcio Canolog Y Rhyl.

Bydd cynnwys pobl yn ystod y cam cynnar pwysig hwn wrth i ni ddatblygu ein cais am gyllid yn ein helpu i benderfynu ar ddatrysiad hirdymor fydd yn bodloni preswylwyr lleol, tra'n cwrdd â'r bygythiad cynyddol a gyflwynir gan newid hinsawdd ac atal unrhyw ddifrod i gartrefi neu fusnesau. Mae sicrhau bod y promenâd yn parhau'n hygyrch i bawb hefyd yn bwysig o safbwynt **Oed** ac **Anabledd**.

### Man Agored Gwyrdd

Mae'r hen lecyn gemau amlddefnydd ar Ffordd Cilgant, y Rhyl wedi cael ei drawsnewid yn ddiweddar i fod yn Fan Agored Gwyrdd gweithredol a deniadol ar stryd brysur yng Ngorllewin y Rhyl.  Dros gyfnod o ddeuddeg mis, mae contractwyr, Gwasanaethau Cefn Gwlad a staff Cadwch Gymru'n Daclus wedi gweithio gyda'i gilydd i greu'r man gwyrdd.  Mae sesiynau wythnosol wedi bod yn cael eu cynnal ar y safle i wella gwaith cymunedol, rhoi sylw i'r coed a'r blodau gwyllt newydd a blannwyd a chefnogi preswylwyr lleol a grwpiau cymunedol yn eu tymor tyfu cyntaf.

Anogwyd grwpiau cymunedol i gymryd rhan yn y prosiect gan staff y cyngor ac ar lafar.  Mae pobl o bob oedran a chefndir wedi cymryd rhan yn y gwaith drwy'r grwpiau hyn, gan gynnwys cymysgedd o drigolion, teuluoedd o Syria, mynychwyr y Gwasanaeth Cefnogi Ieuenctid, Hyfforddiant Gogledd Cymru a Chyfiawnder Ieuenctid.  Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid drwy eu prosiect 'Trawsnewid Trefi, Isadeiledd Gwyrdd' a'r prosiect 'Cysylltiad Da a Chyfleoedd i Bawb' i helpu i drawsnewid y safle.

Mae hwn yn brosiect cydweithio gwych sydd wedi integreiddio uchelgeisiau partneriaid a thrwy ymgysylltu, helpu'r gymuned i ddod at ei gilydd yn gydlynus, gobeithio ar gyfer yr hirdymor, er gwaethaf Oed, Crefydd a Chred.   Mae hefyd yn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, oedd yn broblem ar y safle o'r blaen. Os oes gennych ddiddordeb mewn rhentu llain yma neu yn unrhyw un o'n safleoedd gallwch ymweld â'n gwefan.

### Lleihau Allyriadau Ysgolion

Mae Ysgol Dinas Bran, Llangollen yn arwain y ffordd ar gyfer Sir Ddinbych gyda phrosiect ynni gwyrdd fydd yn helpu i leihau ôl troed carbon yr ysgol, gosod paneli solar 150kw ar do'r ysgol.  Mae elfennau eraill y gwaith yn cynnwys uwchraddio'r system rheoli gwresogi a goleuadau LED.  Disgwylir i'r prosiect cyfan ostwng allyriadau carbon yr ysgol o 73 tunnell y flwyddyn.  Aeth Paneli Solar newydd yn weithredol ym mis Awst a bydd y system rheoli gwresogi a'r goleuadau LED wedi eu cwblhau erbyn y Nadolig.

Mae'r prosiect hwn yn cynnwys holl agweddau o'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn brosiect cydweithredol sy'n integreiddio ein huchelgais a rennir ar gyfer cymdeithas carbon niwtral a bydd yn atal niwed i'n hamgylchedd yn yr hirdymor, yn ogystal â chyflwyno arbedion economaidd i'r ysgol.   Mae'n galonogol bod hwn yn un o'r prosiectau carbon

cynnar i’w cyflawni gan fod ysgolion yn llafar iawn yn cefnogi’r amgylchedd wrth ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol ac mae’n dangos sut maent wedi cyfrannu a chael eu clywed.

### Tacsi Gwyrdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed datgarboneiddio fflyd tacsis Cymru yn llwyr erbyn 2028 ac mae Cyngor Sir Ddinbych yn un o ambell awdurdod lleol a ddewiswyd yng Nghymru i gymryd rhan yn y peilot.   Bydd yn gweithredu menter profi cyn prynu, gan alluogi gyrwyr tacsis hacni trwyddedig i brofi cerbyd am ddim am 30 diwrnod, gan gynnwys pwyntiau gwefru trydan am ddim mewn lleoliadau penodol yn Sir Ddinbych, trwydded cerbyd, yswiriant a pholisi torri i lawr. Mae gan Sir Ddinbych bedwar tacsi Nissan Dynamo E-NV200 sy’n hygyrch i gadeiriau olwyn i’w defnyddio fel rhan o’r peilot. Bydd y seilwaith gwefru cysylltiol hefyd yn cael ei osod, gan gynnwys pedwar gwefrydd cyflym 50kw (dau wedi eu lleoli yn y Rhyl a dau ym Mhrestatyn).

Mae’r cyngor hefyd yn datblygu mentrau cerbyd trydan eraill, gan gynnwys ymestyn ein seilwaith gwefru cerbydau trydan i’n galluogi i ddefnyddio llai o gerbydau disel a chynnydd yn y nifer o gerbydau fflyd allyriadau isel. Bydd gwaith yn cynnwys gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan i’r cyhoedd eu defnyddio i wefru eu cerbydau trydan mewn wyth maes parcio cyhoeddus sy’n eiddo i’r cyngor.

Bydd **cydweithio** gyda Llywodraeth Cymru, **integreiddio** eu huchelgais i Gymru a **chynnwys** gweithwyr tacsi yn y peilot hwn yn ein helpu i weithio tuag at fod yn gymdeithas di-garbon net yn yr **hirdymor**, gan **atal** niwed pellach i’r amgylchedd. Bydd tacsis hygyrch hefyd o fudd i’r sawl â’r nodweddion gwarchodedig **Oed** ac **Anabledd.**

## Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo a chanddynt y sgiliau i wneud hynny

Llinynau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Prosiectau: Da

### Fframwaith Perfformiad Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad blaenorol, mae diwygiadau cwricwlwm Llywodraeth Cymru ac effaith y Pandemig Covid-19 wedi ein gadael gydag ychydig iawn o fesurau y gallwn adrodd arnynt o fewn y flaenoriaeth hon. Yn ystod misoedd diwethaf tymor yr Haf a dechrau tymor yr Hydref, effeithiwyd yn ddrwg ar bresenoldeb wrth i garfan dosbarth hunan-ynysu neu ysgolion orfod cau; ac nid yw data cyrhaeddiad yn cael ei gymharu mwyach, yn seiliedig ar asesiad athrawon ac nid canlyniad arholiadau. Mae hyn yn golygu her wirioneddol i'r cyngor ddeall sut mae ein hysgolion yn cael eu ffurfio, ond byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid Gwella Ysgolion yn GwE i sicrhau bod y deilliannau gorau yn cael eu cyflawni gan ein disgyblion. Cafodd cyd adroddiad gan GwE a'r Pennaeth Addysg Interim ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Mehefin ar sut mae ein consortiwm rhanbarthol a'r Awdurdod Lleol yn cefnogi ysgolion i weithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae data ar gyfer blwyddyn academaidd 2018-19 newydd gael ei ryddhau ar gyfer Rhaglen Mesur Plant Cymru, yn dangos ychydig o welliant yn y tueddiad gostyngol blaenorol ar gyfer pwysau iach plant 4-5 oed yn Sir Ddinbych. Mae Sir Ddinbych nawr yn 13eg yng Nghymru (o'i gymharu â'r 2il waethaf y flwyddyn flaenorol), nawr yn 0.5% cyn canolrif Cymru gyda 71.8%. 286 (28.2%) o blant yn cael eu mesur yn ordew yn 2018-19 (i lawr o 343 ar gyfer 2017-18).

Mae'r unig fesur arall gyda data newydd yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau 18 i 24. Yn unol â thueddiadau cenedlaethol mae data ar gyfer Gorffennaf - Medi yn dangos bod y nifer o bobl sy'n hawlio budd-daliadau wedi gostwng eto o 10% i 7.7%. Rydym yn parhau y tu ôl i gyfartaledd Cymru, sydd nawr yn 6.1%, ond mae'r bwlch (1.6% i lawr o 3%) wedi lleihau. Cyn y pandemig, roedd Sir Ddinbych 2% ar ôl

cyfartaledd Cymru.   Mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn y DU hefyd yn parhau yn uwch na chyfartaledd Cymru, nawr yn 6.5%.

## Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol:  Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect

### Yn profi rhwystrau: Moderneiddio Addysg

Gwnaed cynnydd cadarnhaol gyda phrosiect Ysgol Plas Brondyffryn yn ystod y misoedd diwethaf, gyda Mott MacDonald yn darparu cefnogaeth i ddatblygu'r prosiect i'r cam caffael, gan ddefnyddio Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru.   Mae dewisiadau hefyd yn cael eu hadolygu ar gyfer y cyfnewid tir arfaethedig ar gyfer Ysgol Pendref; a gyda'r ffurflenni comisiynu wedi eu cymeradwyo ar gyfer Ysgol Bryn Collen ac Ysgol Gwernant, mae Tîm Dylunio ac Adeiladu y cyngor yn adolygu capasiti mewnol i ddatblygu'r prosiect.

Mae nifer o adroddiadau cau ar gyfer Band A yn cael eu paratoi ar gyfer eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

### Yn profi rhwystrau: Lleoliadau Gofal Plant

Mae'r Rhaglen Moderneiddio Addysg hefyd yn parhau i ddatblygu nifer o brosiectau bach drwy'r Grant Cyfalaf Gofal Plant. Bydd gwaith adeiladu estyniad Oaktree yn dechrau'n fuan, tra bydd prosiect Ysgol Twm o'r Nant yn datblygu i'r cam caffael.   Mae'r prosiect yn Ysgol Dewi Sant wedi'i ohirio i ddatrys dewisiadau safle oherwydd cyfyngiadau draenio.

### Yn cadw at y targed: Canolfan Iaith Gymraeg

Roedd pedair ystafell o fewn y ganolfan newydd yn cael eu defnyddio yn ystod tymor yr haf gan Gylch Meithrin Llanelwy, Ysgol Glan Clwyd, Mudiad Meithrin a Phrifysgol Bangor. Disgwylir y bydd yna gynnydd yn y defnydd o fis Medi gyda darpariaeth hwyrddyfodiaid yn dechrau.

### Yn profi rhwystrau: Prosiect Maetheg Ysgolion

Ar gyfer blwyddyn 2 o'r prosiect, 6 ysgol a 12 aelod o staff wedi eu recriwtio. Roedd Cwrs Sgiliau Bwyd a Maeth Cymunedol Lefel 2 wedi ei ddarparu ar-lein, rhwng Ionawr ac Ebrill. Nid yw dyddiad a dull darparu Dewch i Goginio wedi'i gadarnhau eto yn unol â chanllawiau

Llywodraeth Cymru, ond disgwylir iddo fod yn ystod tymor yr hydref. Y nod oedd recriwtio 10 ysgol, ond mae 6 yn ymgysylltu'n wych o ystyried y sefyllfa bresennol mewn ysgolion.

Bydd recriwtio ar gyfer ysgolion blwyddyn 3 yn dechrau o fis Medi. Bydd ymgysylltu yn dibynnu ar effaith y pandemig, yn arbennig wrth i'r tymor newydd ddechrau. Rydym wedi trefnu hyfforddiant ar gyfer yr hydref a'r gwanwyn i ganiatau ar gyfer hyn.

### Yn wynebu risg: Y Grant Hyfforddi Gweithwyr

Bwrsariaeth Cyflogaeth Pobl Ifanc o'r blaen, mae'r meini prawf ymgeisio wedi'i adolygu i gefnogi mwy o bobl a busnesau yn y sir yn ystod cyfnod adfer Covid-19. Mae'r nifer yn parhau'n araf, ond mae'r prosiect wedi gofyn os gall Sir Ddinbych yn Gweithio gynorthwyo i'w farchnata. I fod yn gymwys, mae'n rhaid byw yn Sir Ddinbych, yn ennill o dan gyflog canolrif y sir o £28,199, yn gweithio ar hyn o bryd (lleiafswm o 16 awr) a gallu dangos argaeledd swyddi addas gyda chwmni wedi'i leoli yn Sir Ddinbych. Gellir dyfarnu cyllid rhwng £250 a £2,000 yr un ar gyfer hyfforddiant, datblygiad neu i gael gafael ar fentora i alluogi iddynt symud ymlaen yn eu gweithle presennol neu gyda chyflogwr newydd. Mae cyflog y rhai sydd wedi derbyn y grant wedi cynyddu 24% ar gyfartaledd fesul blwyddyn. Mae gwybodaeth ar y fwrsariaeth ar gael ar ein gwefan:

### Ynghau: Agwedd Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol

Rydym wedi cyrraedd diwedd y peilot pedair blynedd o'r arolwg PASS ac yn y cyfnod hwn wedi aildendro ar gyfer contract newydd ble rydym yn gobeithio parhau i gefnogi ysgolion gyda'r adnodd pwysig hwn. Mae dyfarniad terfynol y contract hwn yn parhau i gael ei ystyried.

### Yn cadw at y targed: Gwaith yn dechrau

Mae'r galw am y gwasanaeth yn parhau i godi. Hyd yma mae'r gwasanaeth wedi dyrannu 87 lle - 66 â thâl a 21 di-dâl. Mae cyfanswm o 56 lleoliad wedi eu cwblhau neu yn weithredol ar hyn o bryd, sy'n dangos 64%. Mae hyn yn is na pherfformiad cyn Covid-19. Felly, mae'r gwasanaeth yn bwriadu hybu mwy ar eu cynnig drwy sianeli cyfathrebu'r cyngor a phlatfform cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Cynllun Dechrau Gweithio hefyd yn gweithio'n agos gyda thimau Ailgylchu Gwastraff i ddatblygu a darparu mentrau recriwtio allweddol i gefnogi pwysau yn y gwasanaethau hyn. Ar hyn o bryd, bydd cyllid ar gyfer y

Cynllun yn dod i ben ym mis Mawrth ac mae dewisiadau yn cael eu harchwilio ar gyfer ei barhad.

### Yn cadw at y targed: Sir Ddinbych yn Gweithio: Barod am Waith

Mae wedi bod yn anodd datblygu'r gwaith hwn o dan amodau Covid-19 ond mae gweithgareddau prosiect wedi ailddechrau nawr bod y flwyddyn academaidd newydd wedi dechrau. Mae penaethiaid ysgolion uwchradd wedi cytuno ar amserlenni ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol, gan edrych ar ddechrau'r tymor nesaf rhwng Ionawr a Mawrth. Mae'r amserlen hon yn alinio gyda chyfnod dewisiadau TGAU blwyddyn 9 a bydd yn arwain at fwy o ymgysylltu a chyfranogi. Mae holiadur a ffurflen bresenoldeb wedi eu dosbarthu i ysgolion i'w helpu i lywio a chynllunio'r digwyddiadau ar-lein. Mae cynllun gweithredu manwl ar gyfer darparu'r digwyddiadau hefyd wedi'i ddatblygu, gan gynnwys lansio platfform newydd ar-lein.

### Yn cadw at y targed: Gwirfoddoli

Ar ôl mabwysiadu'r polisi gwirfoddoli newydd a lansio'r wefan 'Siop Un Alwad', mae'r cyngor yn parhau i hybu cyfleoedd gwirfoddoli Covid-19. Wrth i gyfyngiadau godi, byddwn yn annog gwasanaethau i feddwl mwy am y cyfleoedd gwirfoddoli y gallant eu darparu a'u hannog i hysbysebu. Rydym yn gobeithio recriwtio cynrychiolwyr gwasanaeth ar gyfer y Rhwydwaith Gwirfoddolwyr Mewnol ble nodwyd bylchau.

## Llinynnau mesur blynyddol neu bob dwy flynedd

| Llinyn Mesur | 2019 i 2020 | 2020 i 2021 | Statws |
|---|---|---|---|
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd - wedi'i feincnodi yn genedlaethol | 94.9 | Dim data oherwydd Covid-19 | Rhagorol |

| Llinyn Mesur | 2019 i 2020 | 2020 i 2021 | Statws |
|---|---|---|---|
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd - wedi'i feincnodi yn genedlaethol | 93.4 | Dim data oherwydd Covid-19 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran y plant 4-5 oed sy'n bwysau iach neu dan bwysau (adroddwyd blwyddyn yn hwyrach - wedi'i feincnodi yn genedlaethol | 71.8 | Data i ddod | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Cyfartaledd Sgôr Pwyntiau Awdurdod Lleol - CA4 Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru - wedi'i feincnodi yn genedlaethol | 33.8 | Dim data oherwydd Covid-19 | Rhagorol |
| Canran y plant yn cyflawni 5 TGAU A*-C (Lefel 2, Cyfnod Allweddol 4), gan gynnwys Cymraeg (iaith 1af) neu Saesneg, Mathemateg a Llenyddiaeth Saesneg, erbyn diwedd yr ysgol uwchradd, yn erbyn y canran wnaeth gyflawni'r stafon disgwyliedig ar ddiwedd yr ysgol gynradd (Lefel 4, Cyfnod Allweddol 2) – wedi'i feincnodi yn genedlaethol | 50.9 | Dim data oherwydd Covid-19 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Y nifer o ysgolion yn darparu addysg drwy addasrwydd a chategoriau cyflwr C a D - wedi'i feincnodi yn lleol | 30 | 27 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran y disgyblion yn defnyddio Agweddau Disgyblion atynt eu Hunain a'r Ysgol - PASS sy'n ymateb yn gadarnhaol yn erbyn teimladau disgyblion am yr ysgol - wedi'i feincnodi yn lleol. | 86.1 | 87.2 | Da |

Ni ddisgwylir y data ar gyfer 2020 – 2021 ar gyfer y tri mesur canlynol nes cynhelir yr Arolwg Rhanddeiliaid yn yr hydref 2021.

| **Llinyn Mesur** | **2018 i 2019** | **Statws** |
|---|---|---|
| Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd gwaith i bobl ifanc ar ddechrau eu gyrfa - wedi'i feincnodi yn lleol. | 19 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd gwaith i bobl ifanc ddatblygu eu sgilau - wedi'i feincnodi yn lleol. | 28 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd hamdden sy'n apelio at bobl ifanc - wedi'i feincnodi yn lleol. | 50 | Derbyniol |

## Llinynnau mesur chwarterol neu bob dwy flynedd

| **Llinyn Mesur** | **Chwarter 2 2020 - 2021** | **Chwarter 3 2020 - 2021** | **Chwarter 4 2020 - 2021** | **Chwarter 1 2021 - 2022** | **Chwarter 2 2021 - 2022** | **Statws** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran o'r boblogaeth 18 i 24 oed sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith - wedi'i feincnodi'n genedlaethol | 11.9 | 11.9 | 12.4 | 10 | 7.7 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

## Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cyfrifoldeb byd-eang a

diwylliant bywiog lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu’r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol:

### Bwyta'n iach

Mae bron i 500 o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan mewn cynllun bwyta’n iach yr haf hwn. Fel rhan o raglen Bwyd a Hwyl Gwella Gwyliau’r Haf Sir Ddinbych fe gadwodd wyth ysgol eu drysau ar agor am dair wythnos o wyliau’r haf i rai rhwng 3 a 12 oed. Roedd Ysgol Uwchradd y Rhyl, Prestatyn, Christchurch, ysgolion Llywelyn, Penmorfa, Esgob Morgan, Plas Brondyffryn a Chefn Meiriadolg i gyd wedi cymryd rhan yn y cynllun. Cafodd plant gyfle i fwynhau brecwast iach a chinio poeth a oedd yn cael eu darparu bob dydd gan Wasanaeth Prydau Ysgol Sir Ddinbych ac roedd Bwyd a Hwyl yn canolbwyntio ar addysgu ynglŷn â maeth, gyda’r plant yn cael eu hannog i roi cynnig ar fwydydd newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol yn ymwneud â bwyd. Caiff y cynllun ei ariannu drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a’i redeg mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd yr ysgolion hefyd yn darparu gweithgareddau ychwanegol gan gynnwys gwneud crysau t clymliwio, teils Mosäig a pheli straen. Hefyd fe fu’r plant yn cymryd rhan mewn sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar, dawnsio ac amrywiaeth o chwaraeon.

**Integreiddio a chydweithio** gyda phartneriaid yn rhan allweddol o’r gwaith hwn, oedd yn ceisio cynnwys ymddygiad cadarnhaol mewn plant, pobl ifanc a’u teuluoedd ar gyfer eu lles hirdymor, a gobeithio atal niwed. Roedd y gwaith hwn o fudd i nodweddion a ddiogelir Oed a’r sawl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

### Gwobrau Adeiladu

Mae Ysgol Gatholig Crist y Gair, a agorwyd yn swyddogol yn 2019, wedi’i gynnwys ar restr fer categori Prosiect Isadeiledd Cymdeithasol y Flwyddyn yng Ngwobrau Diwydiant Adeiladwaith Prydain (BCIA) 2021. Cafodd yr adeilad ei ariannu gan Gyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru drwy ei Raglen Ysgolion yr 21ain ganrif, darparu cyfleuster addysg newydd sbon i 420 o ddisgyblion llawn amser 3-11 oed, a 500 o ddisgyblion 11-16. Nod y BCIA yw cydnabod a gwobrwyo rhagoriaeth mewn cyflenwi prosiect a chyflenwi canlyniadau cadarnhaol i’r gymdeithas. Mae’r gwobrau hyn a gynhelir ar 13 Hydref hefyd

yn dathlu gwaith caled ac ymrwymiad tîm y prosiect cyfan sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith.

Bu cydweithio rhwng y Cyngor, Esgobaeth Wrecsam a Keir Construction i gyflenwi'r safle sy'n cynnwys capel, neuadd chwaraeon gyda phedwar cwrt, prif neuadd, neuadd fechan, stiwdio drama a chae pob tywydd ac ystafelloedd dosbarth arbenigol fel cerddoriaeth, dylunio technoleg a gwyddoniaeth. Roedd disgyblion, rhieni a staff yn ymwneud â dyluniad yr ysgol newydd, fydd yn gwella profiad dysgu pobl ifanc ar gyfer yr hirdymor. Gan ddisodli dau hen gyfleuster, bydd creu'r ysgol newydd yn atal ac yn mynd i'r afael â nifer o'r materion cysylltiedig â'r hen gyfleusterau dysgu, cynaliadwyedd a mynediad, o fudd i'r sawl gyda nodweddion gwarchodedig Anabledd, yn ogystal ag Oed, Crefydd a chred ac yn un o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig, y sawl dan anfantais economaidd-gymdeithasol

## Lleihau Carbon

Mae prosiect ynni gwyrdd yn digwydd ar safle Ysgol Dinas Brân yn Llangollen a fydd yn helpu i leihau ôl troed carbon yr ysgol. Yn rhan o Raglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych, mae'r prosiect gwyrdd yn Ysgol Dinas Bran a Chanolfan Hamdden Llangollen wedi gweld 150Kw o baneli solar wedi eu gosod ar do'r ysgol. Mae elfennau eraill y gwaith yn cynnwys uwchraddio'r system rheoli gwresogi a goleuadau LED. Disgwylir i'r prosiect cyfan ostwng allyriadau carbon yr ysgol o 73 tunnell y flwyddyn. Aeth Paneli Solar newydd yn weithredol ym mis Awst a bydd y system rheoli gwresogi a'r goleuadau LED wedi eu cwblhau erbyn y Nadolig.

Pan wnaethom gynnwys pobl ifanc yn natblygiad y Cynllun Corfforaethol, roeddent yn siarad yn angerddol am yr angen i wneud mwy i ddiogelu'r amgylchedd. Mae'r prosiect hwn yn dangos meddwl yn y tymor hir, gan gynnig datrysiad cynaliadwy i gostau ynni cynyddol yn ogystal â'r her o leihau ein hallbwn carbon ac atal niwed pellach i'n planed. **Bydd Cydweithio ac integreiddio** gydag uchelgeisiau ysgolion a disgyblion i weithio tuag at gymdeithas carbon niwtral yn y ffordd yna yn ein helpu i ddysgu gwersi pwysig y gallwn eu rhannu gyda phartneriaid ac ysgolion eraill.

## Cadw Pawb yn Ddiogel

Oherwydd cynnydd yn y nifer o achosion Covid-19 cysylltiedig ag ysgolion, roedd dysgwyr a staff wedi ymgymryd â mesurau pellach i helpu i reoli lledaeniad y firws. Mae hyn yn

cynnwys parhau i annog disgyblion a staff i gymryd profion llif unffordd dwywaith yr wythnos i helpu i adnabod ac ynysu achosion asymptomatig a gwisgo gorchuddion wyneb gan ddisgyblion ysgol uwchradd, staff ac ymwelwyr mewn ardaloedd dan do y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae trefniadau eraill yn cynnwys lleihau rhyngweithio agos rhwng staff a dysgwyr, fel pellter cymdeithasol a chynlluniau eistedd mewn ystafelloedd dosbarth.

Mae cydweithio agos gydag ysgolion yn parhau mor bwysig ag erioed, integreiddio ein dymuniad cyffredin i gadw pawb yn ddiogel ac atal unrhyw niwed, yn arbennig y mwyaf diamddiffyn (rydym yn gwybod y gall Covid-19 fod yn arbennig o ddifrifol i'r sawl ag Anabledd neu o gefndiroedd Du ac Asiaidd. Mae'r sawl dan anfantais economaidd-gymdeithasol hefyd yn fwy tebyg o gyflwyno achosion.

## Trosedd, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Phlismona

Mae Gwasanaethau Ieuenctid Sir Ddinbych, gyda chefnogaeth eu Tîm Plismona yn y Gymdogaeth wedi bod yn darparu gweithgareddau i bobl ifanc yn ardal Corwen i helpu i gadw ieuenctid draw o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae mentrau cydweithredol fel hyn am atal niwed i ddyfodol person ifanc, drwy gyfranogiad, i'w helpu i dyfu i fod yn oedolion aeddfed sy'n gwneud dewisiadau hysbys yn yr hirdymor. Bydd **integreiddio** gyda'r heddlu yn y ffordd hyn yn y pen draw yn helpu'r ddau sefydliad, yn ogystal â bod o fudd i nodweddion gwarchodedig **Oed.**

## Cefnogi busnesau

I helpu, mae'r cyngor wedi lansio arolwg i helpu i ddatblygu cefnogaeth i fusnesau ar draws y sir. Mae'n gofyn i fusnesau am eu profiadau yn y 18 mis diwethaf, sut maent yn ymateb i newid hinsawdd a sut gall y cyngor wella a datblygu ei gefnogaeth. I gymryd rhan yn yr arolwg, cliciwch ar y ddolen Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybodaeth. Bydd busnesau sy'n cymryd rhan yn yr arolwg yn derbyn adroddiad a gasglwyd o'r holl wybodaeth a dderbyniwyd a bydd holl ymatebion unigol yn cael eu cadw'n ddienw.

Bydd **cynnwys** busnesau fel hyn yn ein helpu i **gydweithio** ac **integreiddio** ein huchelgeisiau am ddyfodol hirdymor ffyniannus, gobeithio atal colli unrhyw waith yn yr ardal, neu golli cyfleoedd. Mae yna her benodol ar hyn o bryd gyda diweithdra ymhlith pobl ifanc, felly rydym yn awyddus i weithio gyda busnesau i weld beth arall y gellir ei wneud i helpu i roi cam i fyny i bobl ifanc (o fudd i nodweddion gwarchodedig Oed).

## Haf o Hwyl

Roedd y cyngor yn darparu ystod o weithgareddau dwyieithog seiliedig ar chwaraeon, diwylliant a chwarae am ddim fel rhan o brosiect Haf o Hwyl Llywodraeth Cymru, ar draws y sir rhwng Gorffennaf a Medi. Roedd digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc 0 i 25 oed ac wedi eu dylunio i gefnogi plant a phobl ifanc fynegi eu hunain drwy chwarae, cynnig rhyngweithio yn y gymuned, mentrau seiliedig ar chwarae a chreadigol ar gyfer pob oed a darparu cyfleoedd i chwarae gyda ffrindiau a chyfoedion. Roedd Gwasanaeth Ceidwaid Chwarae newydd Sir Ddinbych yn gweithredu sesiynau Gadewch i Ni Chwarae Allan a chynnig cyfleoedd chwarae awyr agored; tra bydd Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych, Technocamps, Gwersyll Plant Salford, Cydfenter Cerdd Sir Ddinbych a'r Urdd yn cynnig ystod o weithgareddau, gan gynnwys sesiynau gwaith ieuenctid yn y gymuned, mynediad agored i ddiwrnod gwaith ieuenctid, dyddiau a sesiynau gweithgareddau awyr agored, STEM a phrosiect dim mwy o ysgol

Drwy gydweithio yn unig y gall cynnig fel hyn fod ar gael, gan gynnwys ac o fudd i'n pobl ifanc yn yr hirdymor. Mae hyn o fudd uniongyrchol i nodweddion a ddiogelir Oed ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Iechyd Corfforaethol: Mae'r cyngor yn effeithiol, wedi ei reoli'n dda ac yn gynaliadwy yn amgylcheddol

Llinynau mesur: Derbyniol
Llywodraethu: Da

### Fframwaith Perfformiad Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Isod mae diweddariad byr ar unrhyw ddata newydd a dderbyniwyd ar gyfer mesurau perfformiad a nodwyd i gefnogi Iechyd Corfforaethol. Gweler y tablau isod ar gyfer canlyniad presennol a pherfformiad y gorffennol, ble mae'r wybodaeth ar gael. Mae statws perfformiad ar gyfer pob mesur yn seiliedig ar benderfyniad lleol o berfformiad ardderchog ac yn adlewyrchu ein huchelgais ar gyfer y cyngor.

Rydym wedi derbyn data newydd ar gyfer dau fesur blynyddol yn ymwneud â gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau. Mae graddfa cyflog fesul awr i ferched wedi parhau i godi'n gadarnhaol am yr ail flwyddyn, gyda merched yn derbyn 13.5% yn fwy na dynion yn ystod 2020 i 2021. Fodd bynnag, mae canran merched sy'n derbyn y cyflogau isaf wedi codi ychydig o 79.1% i 79.9%.

Gyda'r adroddiad hwn, mae 45% o fesurau ein Cynllun Corfforaethol yn flaenoriaeth ar gyfer gwella ar hyn o bryd, i fyny o 41% yn yr adroddiad diwethaf. Mae dau o'n prosiectau corfforaethol yn cyflwyno fel 'dan fygythiad' ar hyn o bryd (Prosiect Cyd Archif Sir Ddinbych a Sir y Fflint ac Adolygiad Gwasanaethau Cynnal Corfforaethol, gyda 90% o brosiectau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd gan reolwyr prosiect. Er gwybodaeth, mae'r prosiect Archif yn adolygu dyluniad ar gyfer yr un safle gyda'r bwriad i gyflwyno cais cyllid newydd i Lywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen Adolygu Gwasanaethau Cynnal Corfforaethol nawr wedi cau - gweler y diweddariad Gweithredu Her Gwasanaeth isod.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella gan reoleiddwyr allanol (Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru). Bu un adroddiad sicrwydd isel gan archwilio mewnol yn dilyn archwiliad blaenorol Rheoli Contract. Gwelwyd bod cynnydd cyfyngedig wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r camau y cytunwyd arnynt, ond bod nifer o gamau yn dibynnu ar gymeradwyaeth gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Fframwaith Rheoli Contract, sydd bellach wedi'i gymeradwyo. Mae pwysau adnoddau parhaus hefyd

wedi cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i ddarparu gorolwg rheoli contract priodol, hyfforddiant a chanllawiau, ond mae'r gwasanaeth wedi rhoi sicrwydd i'r Llywodraeth a'r Pwyllgor Archwilio y gellir darparu hyn wrth symud ymlaen.

Mae ein mesur ar amrywiad cyllideb (e.e. beth sydd gennym ac yn ei dderbyn yn erbyn beth yr ydym yn ei wario) wedi cynyddu o 708k ym mis Mehefin 2021 i 2,445k hyd at fis Medi 2021. Mae cronfeydd wrth gefn y cyngor yn parhau yn £7.135miliwn.

Mae canran y straeon newyddion negyddol am y cyngor (fel cyfran o holl straeon newyddion am y cyngor) wedi gostwng rhwng Gorffennaf a Medi, i lawr o 10% i 6%. Mae hyn yn cynrychioli 13 stori negyddol o gyfanswm o 220. Fodd bynnag, mae'r canran o gwynion allanol a gynhelir neu a gynhelir yn rhannol yn y chwarter diwethaf wedi cynyddu ychydig o 62 i 67%. Mae hyn yn cynrychioli 45 o 67 o gwynion. Mae'r nifer hyn yn gyson ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol, er bod y raddfa a gadarnhawyd yn uwch na'n cyfartaledd blynyddol ar gyfer 2020 i 2021 (60%).

Hyd at fis Medi 2021, roedd absenoldeb salwch yn 7.54 diwrnod, i fyny o 7.12 yn y cyfnod diwethaf. Mae hyn yn cymharu gyda 6.57 diwrnod ym mis Medi 2020. Hyd at fis Gorffennaf 2021, roedd canran y staff oedd wedi cael o leiaf 3 chyfarfod un i un yn y 12 mis diwethaf yn 42%.

Roedd 38% o wariant y cyngor gyda chyflenwyr lleol yn ystod mis Gorffennaf i fis Medi. Roedd 88% o gontractau (dros £25k ac o dan £1,000k) yn cynnwys mantais gymunedol. Ni chynhaliwyd unrhyw weithgareddau caffael cydweithredol yn ystod y cyfnod, ond ni fethwyd unrhyw un chwaith. Fodd bynnag, mae yna 12 caffael cydweithredol posibl ar y gorwel a chaiff y rhain eu datblygu yn y misoedd i ddod.

Mae ein mesur terfynol yn ystyried ymdrechion y cyngor i gefnogi preswylwyr i weithio drwy leoliadau yr ydym ni ein hunain yn eu cynnig o fewn y cyngor. Yn ystod y cyfnod rhwng Gorffennaf a Medi roeddem wedi llwyddo i gefnogi 46 lleoliad ychwanegol, gan ddod â'r cyfanswm cronnus i 110. Mae hyn yn gynnydd ar y duedd ar gyfer yr un cyfnod y llynedd, gyda chymorth codi cyfyngiadau Covid-19.

## Hunanasesiad Iechyd Corfforaethol: Meysydd Llywodraethu

Y canlynol yw ein hunanasesiad yn erbyn saith maes llywodraethu allweddol ac mae'n ceisio paentio darlun o pa mor dda mae'r cyngor yn perfformio, sut yr ydym yn gwybod hynny (cysylltu i dystiolaeth ble mae ar gael) a'r hyn y gallwn ei wneud i wella.

### Cynllunio Corfforaethol

Isod mae camau gwella a nodwyd i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

**Cytuno a gweithredu dull cyngor cyfan ar gyfer Ffyrdd Newydd o Weithio.**

Cyngor Llywodraeth Cymru ydi i staff barhau i weithio gartref ble bynnag y bo'n bosibl. Fodd bynnag, mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn sensitif bod yna fwy o ddymuniad i reoli dychwelyd i'r swyddfeydd. Bydd asesiadau risg felly yn cael eu cynnal yn ystod yr hydref i lywio sut gall y cyngor gefnogi defnydd cyfyngedig o'n hadeiladau swyddfa mewn modd diogel.   Ni fydd y mesurau dros dro hyn yn golygu dychwelyd i'r ffordd oedd pethau, nac yn ddull hirdymor a ystyrir fel rhan o'r prosiect Ffordd Newydd o Weithio.

Mae'r tîm prosiect yn parhau i gwrdd yn fisol ac mae cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan mewnol y cyngor.   Mae'r tîm wedi ystyried arddull gweithio gwahanol wedi'i fabwysiadu gan y cyngor; hyfforddiant a chefnogaeth sydd ei angen ar gyfer newid sefydliadol; gweithio gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill; a pholisiau newydd neu ddiwygiedig fydd angen eu llunio. Mae Strategaeth Ased drafft hefyd wedi'i datblygu a bydd yn cael ei rhannu gydag aelodau yn yr hydref.

**Datblygu Cynllun Corfforaethol newydd erbyn mis Hydref 2022.**

Yn y cyfnod hwn, mae'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad wedi bod yn gweithio i gwblhau cam cychwynnol Sgwrs y Sir, yn ogystal â'r diweddariad o Asesiad Lles Conwy a Sir Ddinbych. Wrth edrych ymlaen, bydd yna weithdai yn cael eu cynnal ym mis Tachwedd gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet i edrych ar pa wersi a ddysgwyd gyda'r Cynllun Corfforaethol presennol a dadansoddi'r materion allweddol a nodwyd hyd yma. Bydd gwybodaeth a gasglwyd drwy'r holl ymarferion hyn yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor newydd yn yr haf 2022 i helpu i arwain penderfyniad terfynol ar amcanion erbyn mis Hydref.

**Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Dros Dro**

Mae'r cyngor bellach wedi cyhoeddi ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol interim ar gyfer y cyfnod rhwng Hydref 2021 - Hydref 2022. Mae'r ddogfen yn diwallu ein gofynion deddfwriaeth ar gyfer llunio cynllun bob 4 blynedd a bydd yn llywio ein Cynllun Corfforaethol newydd 2022 i 2027. Gellir gweld y Cynllun Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb ar ein gwefan.

**Ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.**

Roedd y cyngor wedi'i lansio ei arolwg rhanddeiliaid newydd ym mis Medi, am chwech wythnos tan ddiwedd Hydref. Mae'r arolwg wedi'i ddylunio i fodloni gofynion deddfwriaeth a bydd yn llywio ein hadroddiad hunanasesu nesaf yn 2022. Bydd trefniadau ar gyfer Asesiad Panel yn cael eu trafod gyda'r cyngor newydd yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022. Bydd trafodaethau ar gyfer gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig newydd yn dechrau o fis Medi.

**Cynllun ar gyfer trefniadau newydd Cyllid yr UE.**

Mae'r cyngor yn parhau i fonitro effaith Brexit, ac mae wedi bod yn gweithio drwy'r cyfnod hwn i benodi Swyddog Cydymffurfiaeth, Monitro a Gweinyddu i gefnogi trefniadau Cronfa Adnewyddu Cymunedol. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth hefyd wedi adolygu gofynion gallu i reoli'r cronfeydd Ffyniant a Rennir a Ffyniant Bro, adnoddau ychwanegol yn cael eu nodi i reoli'r rhain wrth symud ymlaen.

**Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Darparu datganiad cyhoeddus i gefnogi cyngor hygyrch ac amrywiol cyn cyfnod yr etholiad nesaf i hysbysu ymgeiswyr posibl.**

Ym mis Medi roedd y Cyngor wedi ymrwymo i fod yn 'Gyngor Amrywiol'. Cytunwyd i:

- Ddarparu ymrwymiad cyhoeddus clir i wella amrywiaeth mewn democratiaeth
- Arddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, gan hyrwyddo'r safonau uchaf o ymddygiad
- Creu Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol cyn etholiadau lleol 2022.
- Arddangos ymrwymiad i'r ddyletswydd i ofalu am Gynghorwyr.
- Darparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy adolygu ein trefniadau ymarferol ar gyfer cynnal cyfarfodydd.

- Sicrhau fod yr holl aelodau yn ymwybodol o'r lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl iddynt, yn arbennig unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn ad-daliadau teg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelod yn gyfyngedig i'r rhai a all ei fforddio.

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael y dasg o ddatblygu Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol cyn etholiadau llywodraeth leol 2022.

**Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Rhoi'r Wybodaeth Ddiweddaraf i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ar sefyllfa gyda'r Adolygiad Gwasanaethau Cefnogi Corfforaethol.**

Mae'r Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio wedi rhoi diweddariad i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, cadarnhawyd y bydd ffrydiau gwaith sydd ar y gweill eisoes yn parhau nes cwblheir. Mae'n bosibl y datblygir gweithgaredd arall ond nid fel rhan o'r rhaglen ffurfiol mwyach.

**Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Sicrhau y gofynnir cwestiwn ym mhob Her Perfformiad Gwasanaeth ynglŷn ag ymrwymiad i wasanaeth i gwsmeriaid.**

Bydd yr ystyriaeth hon yn cael ei chyflwyno mewn papur yn crynhoi'r gwersi a ddysgwyd a chynigion ar gyfer Rhaglen Gwella Gwasanaeth 2022, i'w gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn y cyfnod nesaf. Teimlwyd bod fformat yr heriau yn ystod yr haf wedi gweithio'n dda ar gyfer ei amserlen a llai o waith papur. Fodd bynnag, mae angen ystyried rhoi ystyriaeth i sut mae data lefel gwasanaeth yn cael ei adolygu, gan fod hyn yn rhan bwysig o'n Fframwaith Rheoli Perfformiad.

## Cynllunio Ariannol

Isod mae camau gwella a nodwyd i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

### Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Eiddo yr Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf. Mae'n manylu gweithgaredd buddsoddi a benthyca'r Cyngor yn ystod 2020/21. Mae hefyd yn darparu

manylion ynghylch y sefyllfa economaidd yn ystod y cyfnod hwnnw ac yn dangos sut wnaeth y Cyngor gydymffurfio â'i Ddangosyddion Darbodus.

Wrth gwrs, roedd Covid-19 yn dominyddu 2020 i 2021, ac roedd dechrau'r flwyddyn ariannol yn gweld llawer o fanciau canolog yn torri cyfraddau llog gan fod cyfnodau clo wedi achosi i weithgarwch economaidd arafu. Roedd Banc Lloegr wedi torri cyfraddau banc i 0.1% ac roedd Llywodraeth y DU wedi darparu ystod o fesurau ysgogiad cyllidol, ni welwyd yn y cyfnod heddychlon. Roedd y cyngor wedi benthyg arian drwy'r flwyddyn gan y Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus, yn ogystal â mynediad i fenthyca dros dro gan awdurdodau lleol eraill ar raddfeydd isel iawn i gynnwys gofynion llif arian tymor byr. O ganlyniad i'r benthyca hwn, roedd cyfradd gyfartalog ar ddyled y cyngor o 3.82% ar 1 Ebrill 2020 i 3.95% ar 31 Mawrth 2021. Mae'r benthyciad sydd gan y Cyngor heb ei dalu ar 31 Mawrth 2021 yn £235 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.95%. Mae ganddo hefyd £17.8 miliwn mewn buddsoddiadau ar gyfradd gyfartalog o 0.003%.

**Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru**

Ym mis Medi 2021, roedd Archwilio Cymru wedi cyhoeddi eu canfyddiadau ar yr Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol a gynhaliwyd yn ystod Ionawr 2021 i Ebrill 2021. Roedd yr adroddiad yn amlygu nifer o ganfyddiadau allweddol, gan gynnwys:

- Mae'r cyngor mewn sefyllfa dda i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig. Mae ganddo hanes blaenorol o reoli ei gyllideb ac mae'n parhau i weithio i wella ei sefyllfa ariannol ymhellach.
- Mae effaith uniongyrchol Covid-19 ar gynaliadwyedd ariannol y cyngor wedi'i leddfu gan gyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru.
- Mae trefniadau cynllunio ariannol y cyngor yn aeddfed ac yn datblygu ymhellach i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig.
- Mae arian wrth gefn y cyngor y gellir ei ddefnyddio yn parhau'n gymharol sefydlog ers 2016 i 2017 a rhagwelir y bydd yn cynyddu.
- Mae yna amrywiadau cyllideb sylweddol yn parhau ac mae'r Cyngor yn gweithio i'w datrys.
- Mae gan y cyngor hanes blaenorol o gyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion cyllideb, ond nid bob amser fel y cynlluniwyd.

- Mae'r cyngor wedi cynnal cymhareb diddymu o lai nag 1 dros y cyfnod o 2016 i 2017 a 2019 i 2020.

**Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo**

Mae'r Strategaeth ar gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo a'r Cynllun Ymateb i Dwyllyn ffurfio rhan o fframwaith gwrth-dwyll y Cyngor, casgliad o bolisïau a gweithdrefnau cydberthnasol sy'n cynnwys y Cod Ymddygiad, Rheoliadau Ariannol a'r Polisi Rhannu Pryderon. Mae hefyd yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau sydd wedi'u targedu'n benodol at atal twyll a llygredigaeth.

Wrth ddatblygu'r Strategaeth hon, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddorion arweiniol sydd wedi'u cynnwys yn "Fighting Fraud and Corruption Locally 2020". Mae'r Strategaeth yn ymwneud â gweithgarwch gweithredol er mwyn canfod ac ymchwilio i dwyll a llygredigaeth, ac mae hefyd yn nodi amcanion ar gyfer camau gweithredu rhagweithiol er mwyn rhwystro ac atal twyll a llygredigaeth trwy ddatblygu diwylliant gwrth-dwyll a llygredigaeth yn barhaus. Mae'r Cynllun Ymateb i Dwyll wedi'i ddiwygio i adlewyrchu prosesau presennol a chryfhau trefniadau i sicrhau bod pawb perthnasol yn ymwneud ar bwyntiau allweddol a chynnwys rhagor o aliniad â pholisïau AD, a'r polisi disgyblu a strategaeth llywodraeth leol yn benodol.

## Rheoli Perfformiad

Isod mae camau gwella a nodwyd i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

**Gweithredu proses flynyddol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar berfformiad y cyngor.**

Cafodd Arolwg Rhanddeiliad y cyngor ei lansio ym mis Medi am chwech wythnos. Bydd dadansoddiad yn cael ei gwblhau yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Bydd allbwn yr Arolwg yn helpu i lywio ein Hunanasesiad yn 2022 a dull blynyddol i ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mlwyddyn 2. Bydd data o'r arolwg hefyd yn helpu i lywio ein Cynllun Corfforaethol nesaf.

**Darparu eglurhad i’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar rôl y Tîm Rheoli Prosiect.**

Mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda’r Tîm Gweithredol Corfforaethol a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth am y bwriad i ddatblygu Swyddfa Rhaglen Gorfforaethol, ble mae tîm Rheoli Prosiect yn eistedd. Bydd cynnig ar feysydd datblygu yn cael ei gyflwyno i’r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn y misoedd nesaf, a fydd yn cynnwys ad-drefnu Verto, ein meddalwedd, a chyflwyno rolau newydd yn y Swyddfa Rhaglen Gorfforaethol, a fydd yn ymestyn y gefnogaeth a gynigir i’r sefydliad.

**Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf**

Cafodd Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych ei gyflwyno i’r [Craffu Partneriaethau ym mis Gorffennaf.]() Er gwaethaf y pwysau oherwydd y pandemig COVID-19 a’r cyfyngiadau a osodwyd ar unigolion a sefydliadau gan yr argyfwng, roedd perfformiad y Cyngor o ran diogelu oedolion wedi parhau’n gryf, gyda gwelliannau mewn sawl maes, fel perfformiad yn ôl dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru ar ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith (99%). Ar y cyfan, roedd gostyngiad sylweddol (40%) wedi bod yn nifer yr adroddiadau diogelu a dderbyniwyd o gymharu â’r un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd cynnydd wedi bod yn nifer y galwadau ffôn i’r tîm Diogelu i drafod materion diogelu. Er derbyn llai o adroddiadau yn ystod blwyddyn 2020-21, nid oedd y Cyngor wedi gweld cynnydd mewn achosion oedd angen mynd ymlaen i gyfarfodydd strategaeth, a oedd yn debyg i dueddiadau’r blynyddoedd diwethaf.

Ym mis Mehefin 2021, roedd Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cynnal ‘Gwiriad Sicrwydd’ o Wasanaethau Cefnogaeth Gymunedol gyda ffocws ar ddiogelwch a lles dinasyddion a staff a gyflogir gan y Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol. Rydym wedi derbyn adroddiad terfynol cadarnhaol iawn sy’n cynnwys canfyddiadau fel:

- Mae lleisiau dinasyddion a gofalwyr yn cael eu clywed, ac mae ganddynt reolaeth dros eu gofal a'u cefnogaeth.
- Er gwaethaf pwysau cystadleuol mae ymarferwyr yn parhau i ganolbwyntio ar beth sy’n bwysig i bobl.
- Diwylliant cadarnhaol lle mae ymarferwyr yn cydgynhyrchu datrysiadau sydd wedi eu teilwra i amgylchiadau unigol.
- Diwylliant gwelliant cadarnhaol parhaus ym maes diogelu oedolion.

- Mae ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr ymdrechion sylweddol a wnaed i hyrwyddo eu lles.
- Mae darparwyr gofal a chefnogaeth yn gweithio’n dda gyda’r gwasanaethau cymdeithasol, ac yn gweld eu bod yn agored ac yn onest ac yn fodlon bod yn hyblyg a chynorthwyo i ddatrys heriau.
- Gan gael eu cymell gan heriau allanol a’u hymrwymiad eu hunain i lwyddo, mae rheolwyr y gwasanaethau cymdeithasol yn Sir Ddinbych yn parhau i arwain yn hyderus ac yn parhau i ddatblygu datrysiadau cynyddol greadigol yn gyflym.
- Ar y pwynt hwn ym mhandemig COVID-19, mae’r ffaith fod cynifer o ymarferwyr a rheolwyr wedi parhau yn eu swyddi ac wedi ysgwyddo dyletswyddau newydd er mwyn diogelu eraill yn glod iddyn nhw ac i’r awdurdod lleol.

## Rheoli Risg

Isod mae camau gwella a nodwyd i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

**Adolygiad risg ffurfiol nesaf ym mis Medi i roi ffocws arbennig ar barodrwydd i dderbyn risg i helpu i wella dealltwriaeth y sefydliad o’i ddefnydd.**

Roedd Adolygiad Risg Corfforaethol ym mis Medi wedi rhoi sylw penodol i’n parodrwydd i dderbyn risg a’n cyfeiriad teithio rhagweledig ar gyfer pob risg. Gofynnwyd i’r perchennog risg ystyried pob effaith a phennu’r effaith mwyaf difrifol, i nodi ein lefel parodrwydd i dderbyn risg. Roeddem wedi trafod pa mor effeithiol mae risgiau yn cael eu rheoli i lawr neu allan o’r gofrestr a pha mor effeithiol mae rheoliadau wedi bod ai peidio. Mae’r Gofrestr Risg nawr yn cynnwys sylwebaeth am y cyfeiriad teithio rhagweledig ar gyfer pob risg, a ddylai ein helpu i ddeall effeithiolrwydd ein rheolyddion rheoli dros amser. Astudiaeth achos - yn defnyddio Clefyd Coed Ynn fel enghraifft - wedi’i rannu gyda rheolwyr ac aelodau etholedig o amgylch y defnydd ymarferol o’r parodrwydd i dderbyn risg.

**Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Sicrhau bod cofrestr risgiau corfforaethol a gwasanaeth yn diffinio risgiau hinsawdd ac ecolegol ar lefelau priodol**

Yn ystod Adolygiad Risg Corfforaethol mis Medi, cytunwyd bod Risg 45: “Risg bod y cyngor yn methu cyflawni rhaglen y Cyngor a sefydliadau allanol o fewn yr adnoddau

presennol" sydd ei angen ar gyfer un ffocws ar newid hinsawdd. Mae'r risg nawr yn cael ei ddiffinio fel "Y risg bod y cyngor yn methu bod yn gyngor di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030."

**Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Ystyried darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn arbennig o ran Cyd-bwyllgor Corfforedig ac unrhyw risgiau cysylltiol i'r cyngor.**

Mae risg newydd wedi'i ychwanegu i Gofrestr Risgiau Gorfforaethol y cyngor, sy'n ystyried goblygiadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig newydd. Mae Cyngor Gwynedd yn arwain ar waith i sefydlu'r Pwyllgor ar ran Gogledd Cymru. Mae Prif Weithredwyr ac Arweinyddion Rhanbarthol wedi bod yn cyfarfod drwy gydol y cyfnod hwn i gytuno ar y cynnig terfynol ar gyfer gwneuthuriad y sefydliad newydd sy'n gorfod cytuno ar ei gyllideb ei hun erbyn 31 Ionawr ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd Prif Swyddog Gweithredol, Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151 hefyd yn cael eu penodi. Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn goruchwylio tri maes allweddol ar gyfer y rhanbarth o fis Mehefin 2022, yn benodol Datblygiad Strategol, Cludiant a'r Economi.

**Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf**

Roedd ein hadolygiad Risg Corfforaethol ym mis Medi hefyd yn gweithredu'r camau a nodwyd yn yr adolygiad Archwilio Mewnol ym mis Mehefin o Reolaeth Risg Corfforaethol, megis nodi rheolyddion critigol ac ategol. Bydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol yn dechrau 'sesiynau ffocws risg' yn fuan. Bydd y sesiynau hyn yn rhoi rhagor o amser i ni fynd i'r afael â'r risgiau sy'n peri'r mwyaf o bryder gyda'r perchnogion risg, ac fe'u dewiswyd yn rhannol yn ôl y 'bwlch' parodrwydd i dderbyn risg (sef y bwlch rhwng dosbarthiad y risg a'n parodrwydd i dderbyn risg).

## Cynllunio Gweithlu

Isod mae camau gwella a nodwyd i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

**Drwy ategu at Ffyrdd Newydd o Weithio, byddwn yn adolygu anghenion hyfforddiant, datblygu ac iechyd meddwl ar gyfer staff.**

Bydd strategaeth a chynllun gweithredu newydd yn cael eu datblygu i gefnogi'r prosiect ffyrdd newydd o weithio a rhaglen arweinyddiaeth, dysgu a datblygu sy'n codi. Cytunwyd ar bolisi Iechyd Meddwl gan y Cabinet a bydd rheolwyr canol wedi derbyn sesiwn ymwybyddiaeth yn ein Cynhadledd Arweinyddiaeth. Mae hyfforddiant hefyd wedi'i drefnu ar gyfer holl reolwyr a goruchwylwyr i ddechrau o fis Medi. Mae tudalennau iechyd meddwl defnyddiol hefyd wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan.

**Gwella'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu, gan gynnwys gwybodaeth gydraddldeb, i gefnogi dadansoddiadau mwy manwl mewn Adroddiadau Dyletswydd Sector Cyhoeddus yn y dyfodol.**

Rydym wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr i adolygu gwneud penderfyniadau a thempledi adrodd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

**Gwella ein rhaglen cynllunio gweithlu ac ystyried sut orau i gynllunio ar gyfer swyddi sydd angen lefel benodol o'r Gymraeg uwch na Lefel 1.**

Rydym wedi bod yn cynllunio adolygiad cynllunio gweithlu blynyddol gyda holl wasanaethau fydd yn dechrau ym mis Tachwedd. Mae hyn wedi'i ddatblygu gyda thrafodaethau am y risg gorfforaethol newydd o amgylch recriwtio a chadw a'r risg uwch am bwysau o fewn iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yr adolygiad ar gyfer swyddi sydd angen lefelau penodol o'r Gymraeg wedi dechrau ym mis Rhagfyr 2019; yn anffodus, gohiriwyd y gwaith hwn oherwydd Covid-19, ond bydd yn ailddechrau yn y misoedd i ddod.

**Recriwtio Penaethiaid Gwasanaethau Addysg a Gwasanaethau Plant**

Mae dau Bennaeth Gwasanaeth wedi eu recriwtio yn llwyddiannus. Mae'r gwasanaeth yn parhau'n un gyda Geraint Davies yn gofalu am Addysg a Rhiain Morrlle yn goruchwylio Gwasanaethau Plant.

**Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Ystyried y gofyniad am adnoddau staff cysylltiol â baich ychwanegol rheoli/cefnogi cyfarfodydd ar-lein a chynyddu'r nifer o gyfarfodydd Grŵp Tasg a Gorffen Aelodau ac ystyried pa gamau, os oes unrhyw gamau sydd angen eu cymryd.**

Cafodd achos busnes ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyllideb gyda gwybodaeth fanwl ar y prinder adnoddau a llwyth gwaith cynyddol o ran gweinyddu pwyllgor a chefnogaeth craffu. Mae'r Bwrdd Cyllideb wedi cynnwys cyllid i fynd i'r afael â'r problemau hyn yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Rhoddir ystyriaeth i pa mor fuan y gall y cyllid gael ei dynnu i lawr.

**Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Sefydlu'r sefyllfa ddiweddaraf a lefel o risg cysylltiedig â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd / dangosyddion asesu risg sydd, neu wedi bod yn flaenoriaeth ar gyfer gwella / bod yn dderbyniol.**

Mae'r sefyllfa ddiweddaraf yn un gwella, ond mae'r lefel o risg yn parhau'n flaenoriaeth ar gyfer gwella oherwydd yr ôl-groniad a achosir gan Covid-19. Mae swydd wag dros dro am 6 mis yn cael ei sefydlu i fynd i'r afael â'r mater, oedd wedi codi oherwydd adleoli staff a'r ffocws ar staff newydd yn cael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn hytrach nag adnewyddu (oni bai bod adnewyddu ar gyfer staff o dan Ofal Cymdeithasol Cymru neu ASGC)

**Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf**

Mae risg corfforaethol newydd wedi'i nodi: "Y risg bod problemau recriwtio a chadw, sy'n arwain at golli arbenigedd a chapasiti, yn gwaethygu gan arwain at wasanaethau gwael neu annigonol." Mae nifer o wasanaethau wedi bod yn cael trafferth recriwtio a chadw staff ers peth amser, yn arbennig – ond heb fod yn gyfyngedig i - rolau yn y maes gofal cymdeithasol ac iechyd y rheng flaen a'r maes priffyrdd a'r amgylchedd. Ym mis Medi, roedd y Cyngor wedi atal ei wasanaeth casglu gwastraff swmpus dros dro oherwydd prinder gyrwyr; tra o fewn gofal, roedd 15 o weithwyr ar draws y cyngor wedi mynd ar dair o'r teithiau anoddaf yn Sir Ddinbych i geisio codi ymwybyddiaeth am y gyrfaoedd gworbrwyol sydd ar gael yn y sector gofal.

Wrth gwrs, mae nifer o ffactorau wrth wraidd hyn, gan gynnwys y cyflogau cymharol isel, galw uchel am y gwasanaeth a'r canfyddiad o ddiffyg gwerth. Mae yna hefyd rai pwysau rhanbarthol cysylltiedig â chyflogwyr cyfagos yn cynnig cyflogau uwch.

Yn y cyfnod nesaf, byddwn yn gweithio gydag Archwilio Cymru ar adolygiad cenedlaethol o reoli asedau a chynllunio gweithlu, a gynhelir rhwng Tachwedd 2021 a Ionawr 2022.

## Asedau

Isod mae camau gwella a nodwyd i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

### Strategaeth Rheoli Asedau

Roedd y blaenoriaethau bwriedig ar gyfer y Strategaeth Rheoli Asedau newydd wedi eu hystyried a'u cytuno gan y Grŵp Rheoli Asedau yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf. Mae'r strategaeth lawn nawr yn y broses o gael ei drafftio. Bydd Cylch Gorchwyl y Grŵp Rheoli Asedau yn cael ei ddiweddaru gynted ag yr adolygwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol.

### TGCh - Pyrth Lorawan

Yn 2020, roedd y cyngor yn ymchwilio costau seilwaith Lorawan a'r potensial i'w gweithredu o fewn y cyngor. Yn y cyfnod hwn, rydym wedi comisiynu gosod 5 porth Lorawan ar draws y sir, gan gynnwys ysgolion uwchradd Prestatyn a Dinbych, Neuadd y Sir ac Ysgolion Caer Drewyn a Thremeirchion. Daeth y cyllid ar gyfer y rhain o'r prosiect “pwyso i siarad”. Mae'n bosibl y bydd yna gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu porth ychwanegol maes o law i wella darpariaeth ar draws y Sir.

### Mynediad Di-awdurdod at Ddata

Ochr yn ochr â'r Swyddog Diogelu Data, mae ar yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) gyfrifoldeb penodol i sicrhau bod yr wybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael ei rheoli'n ddiogel, yn effeithiol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae'r cyngor wedi cynyddu buddsoddiadau i sicrhau rheolaeth ddiogel data o fewn y meysydd canlynol:

- Mwy o ymgysylltiad â'r ysgolion.
- Mwy o amser dynodedig wedi'i neilltuo ar gyfer swyddogion yn y Gwasanaethau Cyfreithiol.
- Cydweithio effeithiol ar draws y cyngor drwy gyfrwng y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth sy'n cael ei gadeirio gan Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth y Cyngor.
- Codi ymwybyddiaeth ar draws yr holl wasanaethau drwy hyfforddiant a chymorth dynodedig.

Yn 2020 i 2021 roedd yna 22 o ddigwyddiadau data yn cynnwys data personol, sydd yn gynnydd ers y llynedd ble roedd yna 13 o ddigwyddiadau. Er mai dim ond un o'r digwyddiadau hyn yr ystyriwyd ei fod yn un y dylid rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ei gylch, mae hwn yn gynnydd sylweddol o hyd. Achos sylfaenol hyn oedd gwall dynol, ac mae gan y SIRO rai pryderon bod y digwyddiadau hyn wedi bod yn fwy cyffredin oherwydd bod llai yn gweithio mewn swyddfeydd. Er mwyn datrys hyn mae gweithdrefnau newydd ar gyfer 'gwirio o bell' yn cael eu harchwilio ac yn parhau o fewn TGCh a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys:

- Gweld a yw'n bosibl i Microsoft Outlook stopio cynnig cyfeiriadau e-bost yn awtomatig yn y blwch 'derbynnydd'.
- Gweld a fyddai'n bosibl i neges ymddangos yn Microsoft Outlook i gadarnhau a yw'r anfonwr eisiau anfon yr e-bost ai peidio (fel sy'n digwydd pan nad oes unrhyw beth yn y blwch testun, pan nad oes atodiad ac ati) pan mae'n cael ei gyfeirio at dderbynnydd allanol.
- Archwilio pa un a yw adroddiadau sy'n cael eu hargraffu gan Staff Cefnogi Busnes ar ran aelod arall o staff (sydd ddim yn y swyddfa)) yn gallu cael ei argraffu a'i sganio yn ôl i'r aelod perthnasol o staff i wirio cyn i'r adroddiad gael ei bostio.

Mae hyfforddiant gloywi ar ddiogelu data'n cael ei lansio ar gyfer pob aelod o staff, sy'n cynnwys cyngor ar reoli data'n ddiogel wrth weithio i ffwrdd o'r swyddfa.

**Ffyrdd**

Mae Cyngor Sir Ddinbych, mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru, yn gwneud gwelliannau i Heol y Castell, Llangollen. Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu drwy ymgynghoriad helaeth gyda'r gymuned leol a chynghorwyr sir lleol. Mae'n cynnwys troedffyrdd ehangach, cyffyrdd gwell a mwy diogel, goleuadau traffig newydd a chroesfan i gerddwyr, systemau unffordd newydd a gwaith ailwynebu. Bydd yn rhaid cau ffyrdd ar adegau a bydd goleuadau traffig dros dro ond byddwn yn gweithio'n agos gyda phreswylwyr a busnesau lleol i wrando ar unrhyw bryderon a lleihau unrhyw aflonyddwch. Dylai'r gwaith gael ei gwblhau erbyn y Gwanwyn 2022. Pob wythnos, bydd tudalen Llangollen 2020 yn cael ei diweddaru gyda manylion beth rydym wedi'i wneud a beth gallwn gynllunio i'r wneud.

**Ymchwilio Llifogydd**

Yn Chwefror 2020, cafwyd llifogydd helaeth ar draws Sir Ddinbych o ganlyniad i Storm Ciara. Ers hynny, mae swyddogion y Cyngor, yn ogystal â swyddogion o Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, wedi cynnal ymchwiliadau i'r llifogydd er mwyn deall y rhesymau dros pam ddigwyddodd y llifogydd, y tebygolrwydd ohono'n digwydd eto ac i asesu p'un a ellir rhoi'r mesurau ar waith i leihau llifogydd yn y dyfodol.

Chwefror 2020 oedd un o'r gwlypaf yn y cofnodion ar gyfer rhannau o Ogledd a Chanolbarth Cymru. Bu cyfres o stormydd gan gynnwys Ciara, Dennis a Jorge, ynghyd â glaw trwm dros benwythnos 22 Chwefror 2020, gan arwain at fesuryddion glaw yn cofnodi dros 200% o'u Cyfartaledd Hir Dymor ar gyfer mis Chwefror. Prif ffynonellau llifogydd yn ystod y cyfnod oedd Afon Elwy, Afon Ceidiog, Afon Ystrad ac Afon Clwyd.

Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Gorffennaf, a bydd argymhellion ar gyfer gwella yn cael eu symud ymlaen mewn partneriaeth gyda Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

**Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

Roedd yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi. Mae asesiad cyffredinol o weithrediad Cyngor Sir Ddinbych o systemau Iechyd a Diogelwch yn sicrwydd canolig. Yn gyffredinol, golyga hyn bod systemau rheoli Iechyd a Diogelwch yn cael eu datblygu a'u cofnodi. Mae asesiad cyffredinol o gyfraniad gweithwyr at Iechyd a Diogelwch hefyd yn sicrwydd canolig. Ar y cyfan, nodir a rheolir peryglon sylweddol er mwyn lleihau risg. Ar y cyfan, mae gweithwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a defnyddio systemau rheoli Iechyd a Diogelwch. Yn olaf, roedd yr asesiad yn canfod yn gyffredinol bod y cyngor yn cydymffurfio â rheoliadau Covid-19 ac mae darparu gweithle gyda mesurau diogelu Covid-19 yn sicrwydd uchel.

**Diogelwch Tân Eiddo**

Roedd y Tîm Iechyd a Diogelwch Eiddo wedi cyflwyno Adroddiad Blynyddol Diogelwch Tân i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi. Roedd yr adroddiad yn dangos hyd at fis Gorffennaf 2021, bod 99% o eiddo wedi derbyn asesiad risg tan, heblaw un ysgol oedd wedi canslo eu hapwyntiad asesu. Yn ystod 2021 i 2022 roedd blaenoriaethau

allweddol o amgylch datblygu gwybodaeth a sgiliau diogelwch tân aelod newydd o'r tîm; gan nodi dewisiadau ar gael i gwblhau'r Asesiadau Risgiau Tân yn ddigidol; gan adolygu a gwella'r cofnodi a dyrannu presennol o gamau asesiadau risgiau tân; a chreu rhaglen hyfforddiant ymwybyddiaeth tân.

**Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Datblygu cynnig i wella darpariaeth TGCh, diogelwch ffibr, parhad busnes, darparu TGCh mewn ysgolion a Sir Ddinbych digidol.**

Cynnig oedd y Bwrdd Cyllideb er mwyn dechrau'r broses o ailddatblygu gallu o fewn TGCh. Mae trafodaethau ar y gweill yn ymwneud â lleoliad ar gyfer cyfres data uwchradd yn naill ai y Rhyl neu Ddinbych i ddatblygu gwytnwch. Mae Diogelwch Digidol yn parhau'n fygythiad i'r cyngor ac yn parhau ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol. Mae TGCh a Gwasanaethau Digidol yn ymwneud â grwpiau lleol a chenedlaethol i leihau'r risg a sicrhau bod ganddynt raglen dreigl mewn lle i sicrhau bod Diogelwch Ffiniol Digidol wedi'i ddiweddaru ac yn gweithredu ar y lefelau uchaf.

Mae nifer o ysgolion nawr yn derbyn cefnogaeth TGCh yn uniongyrchol gan swyddogaeth Gwasanaethau Digidol a TGCh Sir Ddinbych. Mae yna dal amgylchedd ansefydlog o amgylch darpariaeth cefogaeth TGCh ysgol trydydd parti. Mae ysgolion wedi derbyn cyngor i danysgrifio i'r gwasanaeth a gynigir gan y Tîm Gwasanaethau Digidol a TGCh corfforaethol i leihau'r risg o ddiogelwch digidol i ysgolion yn uniongyrchol.

**Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Creu canolbwyntiau mewn ardaloedd ar draws Sir Ddinbych ble mae yna gysylltiad band eang gwael, i gynorthwyo a galluogi cynnal cyfarfodydd o bell.**

Mae cynnydd wedi cael ei wneud ar gyflwyno ffibr fesul cam i'n safleoedd corfforaethol sy'n cynnwys Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden a safleoedd pell eraill sy'n cynnwys staff Sir Ddinbych. Mae nifer o'r safleoedd hyn bellach wedi cael mudo eu hen gysylltiad band eang i gysylltiad ffibr newydd, gan ddarparu gwelliannau i gyflymder lawrlwytho ac uwchlwytho. Bu cynnydd sefydlog hefyd ar gyflwyno fesul cam i safleoedd cymunedol ychwanegol, ble mae nifer o ffibr wedi cael ei ddatblygu. Rydym yn aros nawr i weithredu'r ffibr hwn.

**Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Gwaith i alluogi darpariaeth cyfieithu gyda meddalwedd Microsoft Teams**

Mae’r gweithgaredd hwn yn profi llawer o rwystrau, ond mae gwaith yn parhau’n genedlaethol i wneud cynnydd tuag at alluogi darpariaeth gyfieithu o fewn Microsoft Teams.

**Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Creu cynllun i gefnogi partneriaid a busnesau allanol i symud ymlaen gyda’r rhaglen newid hinsawdd a newid ecolegol**

Yn y cyfnod hwn, mae gweithgaredd wedi dechrau i ddarparu cefnogaeth i bartneriaid a busnesau i gyfrannu at y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol, yn arbennig mae digwyddiad cyhoeddus wedi’i drefnu ar gyfer 1 Tachwedd a Brecwast Busnes ar 9 Tachwedd. Yn ogystal â hyn, mae cynllun i nodi mentrau newid ymddygiad ehangach ar gyfer 2022 i 2023 ymlaen yn cael ei ddatblygu a rhagwelir y cwblheir erbyn Ebrill 2022.

**Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Sicrhau bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu nodi o brynu adeiladau blaenorol**

Bydd y materion gyda nodi asbestos a’i ddileu yn cael ei gynnwys yn y cofnod gwersi a ddysgwyd ar gyfer prosiect Adeilad y Frenhines ac yn adroddiad terfynu prosiect a gwblheir unwaith y bydd allbwn cam 1 yn cael ei gyflawni. Mae Rheolwr Prosiect prosiect porth arfaethedig y Rhyl wedi cynghori bod cyfalaf wrth gefn wedi’i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer cael gwared ag asbestos posibl.

Yn yr hirdymor, cynigir y bydd y cyngor angen ystyried dyrannu mwy o gyllid ‘mewn perygl’ i ymgymryd â gwaith dichonoldeb ar gyfer prosiectau adfywio yn arbennig y rhai sy’n cynnwys caffael eiddo. Bydd hyn yn galluogi cynnig prosiect mwy manwl i gael ei ddatblygu a mwy o hyder yn rhagolygon y gyllideb. Fodd bynnag, mae hefyd angen cydnabod mewn rhai achosion, ni fydd presenoldeb asbestos yn hysbys nes bydd arolygon ymwthiol yn cael eu cynnal neu’r adeilad yn cael ei ddymchwel neu ei ailwampio. Nid yw arolygon ymwthiol yn bosibl yn gyffredinol cyn caffael adeilad.

## Caffael

Isod mae camau gwella a nodwyd i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

**Integreiddio gwella a diogelu bioamrywiaeth yn ein prosesau caffael a chymell drwy fuddion cymunedol sy’n gwella’r amgylchedd. Byddwn yn gweithio gyda busnesau**

**a chyflenwyr yn Sir Ddinbych i annog llai o arfer carbon. Byddwn hefyd yn datblygu strategaeth gaffael newydd.**

Mae cynnydd tuag at y camau hyn wedi eu cyfyngu o fis Gorffennaf i fis Medi. Mae’r tîm caffael yn parhau i wynebu materion capasiti. Mae ein Canolbwynt Buddion Cymunedol yn gweithio gyda swyddogion ar draws y cyngor i nodi buddion cymunedol amgylcheddol perthnasol a phriodol sy’n cyfrannu at fioamrywiaeth. Rydym wedi cytuno bod yn rhaid i fuddion cymunedol a nodwyd hefyd gynnwys cynllunio ac adnoddau rheoli ased. Rydym hefyd wedi bod yn archwilio cyfleoedd ar gyfer caffael peilot posibl sy’n defnyddio budd cymunedol coed a reolir.

**Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Hybu cadw at y Polisi Caffael ar draws y cyngor**

O ran annog arferion caffael da, mae yna rai heriau yn y maes hwn. Mae yna rywfaint o arfer gwael diweddar sydd wedi arwain at drafodaethau mwy maith ac amserlenni a chapasiti prin ymhellach. Bydd unrhyw arfer gwael a nodwyd yn cael ei adolygu.

**Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Archwilio dewisiadau hirdymor ar gyfer cynnal Canolbwynt Buddion Cymunedol**

Mae’r gwasanaeth ar fin dechrau ar y gwaith hwn i archwilio dewisiadau posibl a’r ffordd ymlaen.

## Llinynnau mesur blynyddol neu bob dwy flynedd

### 2018 i 2019 a 2019 i 2020

| Teitl | 2018 i 2019 | 2019 i 2020 | Statws |
|---|---|---|---|
| Boddhad cyffredinol gyda’r cyngor (%) - wedi’i feincnodi’n lleol | 40 | Dim data. Arolwg i’w gyflwyn o yn yr hydref | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

| Teitl | 2018 i 2019 | 2019 i 2020 | Statws |
|---|---|---|---|
| Canran o’r penodai newydd o’r ceisiadau ble cafodd ei ddatgelu eu bod naill ai o grŵp lleiafrif hiliol neu grefyddol, ag anabledd, yn hoyw neu’n ddeurywiol, neu wedi cael ailbennu rhywedd - wedi’i feincnodi’n lleol | 7 | 15 Adroddiad nesaf hydref 2021 | Amherthnasol Cyfrif yn unig |

**2019 i 2020 a 2020 i 2021**

| Teitl | 2019 i 2020 | 2020 i 2021 | Statws |
|---|---|---|---|
| Y gwahaniaeth canran yn y raddfa fesul awr o dâl ar gyfer merched - wedi’i feincnodi’n lleol | -9.7 | -13.5 | Rhagorol |
| Canran y cyflogau isaf (chwarter isaf) sy’n ferched - wedi’i feincnodi’n lleol | 79.1 | 79.9 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Presenoldeb aelodau (disgwylir ac yn bresennol) blwyddyn hyd yma - wedi’i feincnodi’n lleol | 79 | 89 | Da |
| Di-garbon Net - Cyfanswm tunelli carbon wedi’i allyrru a’i amsugno gan y cyngor (heb gynnwys cadwyn gyflenwi) - wedi’i feincnodi’n lleol | 14,030 | 10,277 | Rhagorol |

## Llinynnau mesur chwarterol neu ddeuflynyddol

| Teitl | Chwarter 2 2020 - 2021 | Chwarter 3 2020 - 2021 | Chwarter 4 2020 - 2021 | Chwarter 1 2021 - 2022 | Chwarter 2 2021 - 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran Mesurau'r Cynllun Corfforaethol sy'n ymddangos fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 47 | 49 | 49 | 41 | 45 | Derbyniol |
| Y nifer o brosiectau ar y gofrestr prosiect sy'n ymddangos 'dan fygythiad' - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 2 | 0 | 1 | 2 | 2 | Derbyniol |
| Roedd canran y prosiectau y diweddarwyd hyder darparu yn y tri mis diwethaf - wedi'i feincnodi'n lleol | Dim data<br>Newydd i chwarter 3 | 90 | 94 | 96 | 90 | Derbyniol |

| **Teitl** | **Chwarter 2 2020 - 2021** | **Chwarter 3 2020 - 2021** | **Chwarter 4 2020 - 2021** | **Chwarter 1 2021 - 2022** | **Chwarter 2 2021 - 2022** | **Statws** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y risgiau corfforaethol sy'n anghyson gyda datganiad parodrwydd i dderbyn risg y cyngor - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 52 | Dim data<br><br>Bob chwe mis | 55 | Dim data<br><br>Bob chwe mis | 62 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Y nifer o adroddiadau negyddol gan reoleiddwyr allanol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Rhagorol |
| Y nifer o adroddiadau sicrwydd isel Archwilio Mewnol, blwyddyn ariannol hyd yma - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 2 | 4 | 4 | 0 | 1 | Rhagorol |
| Amrywiant Cyllideb Corfforaethol a Gwasanaeth (k) | 5,107 | 2,242 | -718 | 708 | 2,445 | Amherthnasol<br><br>Cyfrif yn unig |

| **Teitl** | **Chwarter 2 2020 - 2021** | **Chwarter 3 2020 - 2021** | **Chwarter 4 2020 - 2021** | **Chwarter 1 2021 - 2022** | **Chwarter 2 2021 - 2022** | **Statws** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arian wrth gefn y Cyngor (£k) | 7,135 | 7,135 | 7,135 | 7,135 | 7,135 | Amherthnasol<br><br>Cyfrif yn unig |
| Straeon newyddion negyddol fel canran o holl straeon newydd am y cyngor - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 4 | 12 | 24 | 10 | 6 | Da |
| Canran cwynion allanol a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol dros y chwarter diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 63 | 52 | 57 | 62 | 67 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

| **Teitl** | **Chwarter 2 2020 - 2021** | **Chwarter 3 2020 - 2021** | **Chwarter 4 2020 - 2021** | **Chwarter 1 2021 - 2022** | **Chwarter 2 2021 - 2022** | **Statws** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfartaledd treigl o ddyddiau gwaith / sifftiau a gollwyd fesul gweithiwr cyfartaledd amser oherwydd absenoldeb salwch - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 6.57 | 6.61 | 6.47 | 7.12 | 7.54 | Derbyniol |
| Canran y staff oedd wedi cael o leiaf 3 chyfarfod un i un yn y 12 mis diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data<br><br>Newydd i chwarter 4 | Dim data<br><br>Newydd i chwarter 4 | 45 | 44 | 42 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran gwariant gyda chyflenwyr a leolir o fewn Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 36 | 34 | 36 | 33 | 38 | Da |

| Teitl | Chwarter 2 2020 - 2021 | Chwarter 3 2020 - 2021 | Chwarter 4 2020 - 2021 | Chwarter 1 2021 - 2022 | Chwarter 2 2021 - 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran cronnus o gontractau Sir Ddinbych dros £25k ac o dan £1,000k yn cynnwys manteision cymunedol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data<br><br>Newydd i chwarter 4 | Dim data<br><br>Newydd i chwarter 4 | 12 | 75<br><br>Nawr adroddir fel dangosydd cronnus | 88 | Rhagorol |
| Y nifer cronnus o leoliadau profiad gwaith a gynigir o fewn y sir | 28 | 28 | 36 | 64 | 110 | Amherthnasol<br><br>Cyfrif yn unig |

## Camau Gwella

Isod mae camau gwella newydd wedi eu nodi drwy'r adroddiad hwn:

- Rhaglen Herio Gwasanaeth i gael ei adolygu a chynigion ar gyfer 2022 i gael ei gynnig i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ym mis Tachwedd / Rhagfyr.

# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

## Asesiad Anghenion ar gyfer Llety Sipsiwn a Theithwyr

Mae'r cyngor yn asesu anghenion llety presennol Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn. Nid yw hyn yn cynnwys edrych am leoliadau ar gyfer safleoedd. Bydd y broses yn cynnwys siarad â theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr, budd-ddeiliaid allweddol a grwpiau cynrychioli, a bydd arolwg yn cael ei gynnal tan 7 Hydref 2021. Bydd ein gwaith yn cynnwys adolygiad o ddata lleol, gan gynnwys y nifer o wersylloedd heb awdurdod yn y sir ac ymgynghoriad gyda theuluoedd o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn byw Sir Ddinbych. Gofynnir i aelodau etholedig a chynghorau Dinas, Tref a Chymuned i hybu'r arolwg i breswylwyr cymwys, yn ogystal â bwydo gwybodaeth leol o amgylch patrymau teithio. Mae gan y cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gynnal Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) bob pum mlynedd fel gofyniad y Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a hefyd mae'n ofyniad i ddisodli'r Cynllun Datblygu Lleol mae'r cyngor yn gweithio arno ar hyn o bryd.

Bydd y gwaith asesu yn cefnogi **Hil a Chrefydd a Chred** yn uniongyrchol. **Cynnwys** rhanddeiliaid a chydweithio gyda phartneriaid gwahanol a grwpiau yn y ffordd hyn yn helpu i ddeall anghenion **hirdymor** y sir ac atal unrhyw grŵp rhag wynebu **anfantais economaidd gymdeithasol** sy'n gwaethygu.

## Catalyddion Cymunedol

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydweithio gyda'r fenter gymdeithasol Community Catalysts er mwyn helpu pobl garedig i gyflawni eu dyheadau o helpu pobl hŷn a phobl anabl. Mae'r rhaglen yn cefnogi trigolion Sir Ddinbych yn ne a chanol y sir sydd am sefydlu eu menter fach eu hunain i helpu pobl sydd mewn angen, neu ddod â phethau sy'n rhoi mwynhad iddynt yn nes atynt. Gallwch wybod mwy drwy ymweld â gwefan Catalyddion Cymunedol Sir Ddinbych.

Mae hyn o fudd uniongyrchol i nodweddion a ddiogelir **Oed** ac **Anabledd** a'r sawl **dan anfantais economaidd-gymdeithasol.** Mae'n annog **cyfraniad** a gobeithio y bydd syniadau newydd yn dwyn ffrwyth i **atal** niwed a bodloni anghenion na wireddwyd yn yr **hirdymor.**